



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

1pm – 25 Medi 2024  
Ar-lein ar Microsoft Teams


### AGENDA

Yn bresennol:

|  |   |
|--|---|
| <b>CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:</b>  |   |
| Rachel Barber – Cadeirydd<br>John Cunliffe<br>Allan Rainford   | Julie Perkins<br>Dr Norma Barry   |
| <b>SWYDDOGION YR HEDDLU:</b>   |   |
| Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Guto Edwards – Pennaeth Cyllid<br>Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol<br>Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau<br>Y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol | James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd<br>Bwrdd Sicrwydd<br>Anna Pretious – Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni<br>Dewi Williams – Cyfrifydd Ariannol<br>Colin Parry – Rheolwr Gwybodaeth Cronfa Ddata<br>Genedlaethol yr Heddlu ac Eiddo |
| <b>SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:</b>  |   |
| Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol<br>Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid  | Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif<br>Weithredwr<br>Rebecca Jackson – Prentis Modern  |
| <b>ARALL YN BRESENNOL</b>  |   |
| Fiona Roe - TIAA   | Michelle Phoenix, Archwilio Cymru   |

|   | Eitemau Sefydlog   |  | Diben      | Tudalen | Amser |
|---|--|--|------------|---------|-------|
| 1 | <b>Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb</b>   | Cadeirydd  |            |         |       |
| 2 | <b>Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf</b><br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2024 yn gywir. | Cadeirydd  |            |         | 5 mun |
| 3 | <b>Cofnod Gweithrediadau</b>   | Cadeirydd  |            |         | 5 mun |
|   | <b>Eitemau Sefydlog</b>  |  |            |         |       |
| 4 | <b>Diweddariad Sefydliadol</b>   | Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | Gwybodaeth |         | 5 mun |
| 5 | <b>Diweddariad AHM</b>   | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol              | Sicrwydd   |         | 5 mun |

|  |  |  |              |  |         |
|--|--|--|--------------|--|---------|
| 6  | <b>Archwilio Mewnol</b><br>a. Archwilio Mewnol SICA 2024/25 a barn 2023/24<br>b. Oedi i amserlenni rheolwyr<br>c. Adroddiad Rheolwyr gan gynnwys Barn Adroddiad Archwilio Mewnol         | a&b Archwilio Mewnol<br><br>c. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb     | Sicrwydd     |  | 10 mun  |
| 7  | <b>Diweddariad Risgiau</b><br>- Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol<br>-<br>- Cofrestr Risg SCHTh   | Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes<br><br>Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Cyllid | Sicrwydd     |  | 10 mun  |
| 8  | <b>Rhaglen Waith 2024/25</b>   | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid                                | Penderfyniad |  | 5 mun   |
| <b>Eitemau Sefydlog</b>  |  |  |              |  |         |
| 9  | <b>Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS</b>  | Cyfrifydd Rheolwyr   | Sicrwydd     |  | 15 mun  |
| 10   | <b>Deddf Caffael 2023</b>  | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau   | Gwybodaeth   |  | 5 munud |
| 11   | <b>Diweddariad Llywodraethu – gan gynnwys AGS drafft</b>   | Prif Swyddog Cyllid  | Gwybodaeth   |  | 5 mun   |
| <b>Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)</b> |  |  |              |  |         |
|  | <b>DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL</b><br>31 Hydref 2024 (darparu llofnodi Cyfrifon)<br>28 Tachwedd 2024<br>25 Mawrth 2025<br>29 Gorffennaf 2025<br>28 Hydref 2025<br>16 Rhagfyr 2025 |  |              |  |         |



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn ac ar-lein drwy Teams  
30 Gorffennaf 2024 am 13:00**

### PRESENNOL

#### CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd  
John Cunliffe  
Allan Rainford  
Julie Perkins  
Dr Norma Barry

#### SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau  
Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol  
Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau  
Y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol  
Phil Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu (eitem 11 yn unig)  
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes (gadawodd y cyfarfod ar eitem 8)  
James Davies – Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol

#### SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid  
Meinir Jones – Dirprwy Swyddog Monitro  
Angharad Jones – Cynorthwydd Gweithredol (cofnodion)  
Rebecca Jackson – Prentis Modern

#### POBL ERAILL YN BRESENNOL

Michelle Phoenix – Archwilio Cymru  
Jonathan Maddock – Archwilio Mewnol  
Fiona Roe – Archwilio Mewnol

### 1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Wayne Jones – Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd;  
Stephen Hughes – Y Prif Swyddog Gweithredol; a Guto Edwards – Pennaeth Cyllid

Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.

Croesawodd y Cadeirydd aelod newydd o'r CA sef Dr Norma Barry.

### 2. COFNODION O'R CYFARFOD DIWETHAF

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2024 yn gofnod cywir. Cafwyd un newid i'r paragraff olaf yn Adran 5. Dylai'r cofnodion ddarllen fel hyn ..... mae fideo ar gael ac roedd cynnwys tebyg hefyd yn rhan o Sioe Deithiol y Prif Gwnstabl.

### 3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg hefo'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd:

28/03/23 – 13, 07/2/2023 – 4, 28/03/2024 – 6a, 7a, 7b, 9, 10.

### 4. DIWEDDARIAD SEFYDLIADOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariadau o'r adroddiadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Rhoddwyd diweddariadau ar y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Holwyd ac atebwyd cwestiynau tu allan i'r cyfarfod.

#### Heddlu Gogledd Cymru

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddiweddariadau ychwanegol diweddar i'r Cydbwyllgor:

**Dyfarniad cyflog** - Mae dyfarniad cyflog yr heddlu wedi ei gyhoeddi ar gyfer swyddogion heddlu ar 4.75%. Tybiwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig y byddai'n 2.5%. Mae pob 1% ychwanegol o gyflog swyddogion yn cyfateb i £1.7m. Rydym dal i aros am gadarnhad gan y Swyddfa Gartref ar sut y bydd y codiad cyflog ychwanegol hwn yn cael ei ariannu. Mae'r codiad cyflog hwn yn debygol o gael ei adlewyrchu fel rhan o ystyriaethau dyfarniad cyflog staff yr heddlu.

**Etholiad cyffredinol** – Mae Llafur wedi addo 13,000 o swyddogion a staff heddlu plismona cymdogaethau. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl mwy o fanylion am yr hyn y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol. Yn ddiweddar, gwnaeth y Canghellor newydd ddatganiad ar gyllid cyhoeddus a bydd yr Heddlu'n gweithio drwy hyn er mwyn gweld pa effeithiau y bydd yn eu cael.

**HMICFRS** – Mae wedi bod yn fis prysur ar draws yr heddlu hefo cyfweiliadau a phroffion realiti wedi digwydd, gan fynd â'r heddlu i drothwy ôl-drafodaeth boeth hefo HMICFRS ar yr arolygiad PEEL.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** – Mae Adolygiad Annibynnol gan yr ICO o ran y broses o dorri data personol wedi dod i ben. Rhoddwyd sicrwydd rhesymol hefo naw argymhelliad. Nodwyd bod dau o'r rhain yn rhai brys (ond eisoes mewn llaw hefo'r Heddlu). Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu'r ddogfen hon hefo aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.

|                   |   |
|-------------------|---|
| Gweithrediad<br>4 | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu adroddiad Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth ar y broses torri data personol hefo aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio. |
|-------------------|---|

Bu cynnydd diweddar yn atgyfeiriadau ICO gan Heddlu Gogledd Cymru er nad oes patrwm sylfaenol clir. Gall mwy o ymwybyddiaeth fod yn ffactor. Mae pob atgyfeiriad wedi cael ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

## 5. DIWEDDARIAD HMICFRS A DILYNWR GWEITHREDIADAU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur bod arolwg 2024 PEEL wedi bod. Mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn paratoi ar gyfer yr arolwg hwn ac nid ydynt wedi derbyn unrhyw adborth eto.

Bydd ôl-drafodaeth ffurfiol yn cael ei chynnal ar 5 Awst 2024 ond ni roddir graddiadau yn y cyfarfod hwn. Bydd graddfeydd yn cael eu darparu ar 19 Awst a derbynnir yr adroddiad cyn cyhoeddi ym mis Medi. Bydd yr Heddlu'n gallu gwirio a chwestiynu/herio unrhyw benderfyniadau, hefo cyhoeddiad llawn ym mis Tachwedd.

- Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio yng nghyfarfod mis Medi ar y gwersi a ddysgwyd o'r Arolwg PEEL. Bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

|                   |   |
|-------------------|---|
| Gweithrediad<br>5 | - Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y gwersi a ddysgwyd o arolwg PEEL yn y cyfarfod nesaf. |
|-------------------|---|

Ymgwymerwyd/disgwylir tri arolwg arall:

- Troseddau mewnfudo trefnedig – disgwylir archwiliad thematig ac adroddiad yn yr hydref hefo arfer da yn cael sylw.
- Arolygiad Gwarchod Plant – dim dyddiad wedi'i roi eto ond fe'i disgwylir yn y dyfodol agos.
- Troseddau Difrifol a Threfnedig – amlygwyd meysydd lle roedd angen gwelliannau a chynllun gweithredu sydd bellach ar waith. AHEF yn dychwelyd ym mis Tachwedd er mwyn arolygu cynnydd.

## 6. ARCHWILIO MEWNOL

### a. ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2023-24 hyd at 5 Gorffennaf 2024.

Mae'r holl adroddiadau archwilio ar gyfer 2023/24 bellach wedi'u cwblhau ac mae adroddiad blynyddol wedi'i greu a'i rannu hefo swyddogion.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor fod yr adroddiad yn cyfeirio at Heddlu Dyfed Powys ym mharagraff 7 a holwyd a oedd y tabl yn ymwneud â Gogledd Cymru neu Dyfed Powys.

Cadarnhaodd Archwilio Mewnol fod y tabl yn ymwneud â Heddlu Gogledd Cymru a bod sôn am Heddlu Dyfed Powys yn gamgymeriad teipio.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor pam y cymerodd yr adroddiad cydweithredol Diogelu Data gymaint o amser i'w gwblhau.

Eglurodd Archwiliad Mewnol fod hyn oherwydd bod Gwent wedi mynd trwy ychydig o newidiadau o ran prif gyswllt archwilio ond bod swyddog newydd bellach wedi'i nodi a bod gwaith yn symud ymlaen.

b. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2024/25

Mae'r Cynllun Archwilio Blynyddol bellach ar waith hefo'r rhan fwyaf o adolygiadau wedi'u trefnu gyda'r rhan fwyaf hefo dyddiad cychwyn ar waith er mwyn cynnal yr adolygiad.

Holodd Aelodau o'r Cydbwyllgor:

- Sicrwydd data TGCh o 2023/24 – pam gohirio. Nododd yr heddlu hynny oherwydd adolygiad ICO ac mae bellach yng nghynllun 2024/25.
- Adolygiad seilwaith TGCh – er mwyn galluogi ymgorffori'r broses bontio hefo CGI, gohiriwyd hyn tan 2024/25.
- Rheoli Cyllideb – Cyfriflyfr cyffredinol, ydy'r adolygiadau hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol – gan y derbyniwyd sicrwydd sylweddol ar y cyfriflyfr cyffredinol a'r rhan fwyaf o'r archwiliadau ariannol, mae'r rhain bellach yn cael eu cynnal bob yn ail flwyddyn er mwyn galluogi archwiliadau eraill ddigwydd lle mae mwy o risg wedi'i nodi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod 32 o ddiwrnodau archwilio wedi'u dyrannu ar gyfer rheoli technoleg, seilwaith a gwybodaeth yn ystod 2024/25. Y gobaith y bydd hyn yn gallu rhoi sicrwydd i aelodau.

c. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL - ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Nododd y Swyddog Cyllideb nad oedd y dyddiad ar yr adroddiad Rheoli Iechyd a Diogelwch wedi cael ei ddiweddarau'n fwriadol gan ei bod yn anodd penderfynu pryd y cafodd y camau hyn eu cwblhau. Mae archwiliad mewnol pellach wedi cael ei gynnal a phenderfynir ar ôl derbyn eu hadroddiad a ellir cau'r weithred hon. Bydd diweddariad yn cael ei roi ym mhapur mis Medi i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor faint o amser mae'n ei gymryd i gwblhau camau fel y gall hyd yr amser rhwng dechrau a diwedd y camau fod yn hir. A ydy hyn yn broblem neu oes angen rhoi cynlluniau mwy realistig ar waith?

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau mai dim ond rhan fach o'r camau a gymerwyd ydy cau'r camau a bod llawer o waith yn cael ei wneud er mwyn symud y materion hyn ymlaen. Mae rhai meysydd yn ei chael hi'n anodd ond mae pawb yn ceisio gwneud y gwaith mewn modd amserol.

Nodwyd bod argymhelliad archwilio Rheolwyr Fflyd wedi'i ohirio ond nid oedd eglurhad na rhesymeg glir ynghylch pam.

Dywedodd y Swyddog Cyllidebau fod system newydd ar waith ac adnoddau wedi'u rhoi er mwyn cael y system newydd ar waith. Byddant yn ymchwilio ymhellach i'r mater ac yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Gweithrediad<br>6c | Y Swyddog Cyllidebau i ymchwilio pam nad oedd unrhyw eglurhad na rhesymeg glir ynghylch pam y gohiriwyd camau archwilio'r Rheoli Fflyd. |
|--------------------|---|

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor y bydd deddf gaffael newydd yn cael ei gweithredu cyn bo hir. Holodd a fydd unrhyw effaith ar werth cymdeithasol neu'r siarter gwerth cymdeithasol.

Nododd y Prif Swyddog Cyllid y bydd y rheolau newydd yn effeithio ar y Polisi Gwerth Cymdeithasol a bod y ddogfen hon wedi'i diweddarau'n ddiweddar ac y bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Comisiynydd unwaith y caiff ei chyfieithu. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud hefo'r Adran Gaffael er mwyn sicrhau bod eu gwiriadau gwerth cymdeithasol yn ymgorffori'r rheolau newydd.

## 7. DIWEDDARIAD RISG

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 3 Gorffennaf 2024.

Adroddodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod cynhadledd genedlaethol wedi'i chynnal yn ddiweddar ac y bydd yn edrych ar ddysgu gan bobl eraill ynghylch digideiddio'r broses risg ac yn edrych o ddifrif ar wneud prosesau'r Heddluoedd yn fwy effeithiol a defnyddio technoleg sydd ar gael.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a ydy GanBwyll ar holl gofrestr risg heddluoedd Cymru fel y deallwch mai rhaglen genedlaethol ydy hon.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y dylai'r risg GanBwyll fod ar bob cofrestr risg yn amodol ar eu polisiâu lleol gan ei bod yn rhaglen genedlaethol. Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y gellid codi hyn yng nghyfarfod nesaf arweinwyr risg Cymru gyfan.

|                 |  |
|-----------------|--|
| Gweithrediad 7a | Arweinydd Risg a Pharhad Busnes i holi a nodir GanBwyll yn risg ar holl gofrestrau risg heddluoedd Cymru yng nghyfarfod nesaf Cymru gyfan. |
|-----------------|--|

Holodd aelodau'r Cydbwyllgor am y nifer y risgiau a olygwyd. Holwyd a ydy'r Heddlu'n siŵr bod angen golygu pob un neu eu bod yn rhy ofalus.

Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y byddai'n ddefnyddiol adolygu a holodd a allai Arweinydd Risg y CA adolygu hefo'r Heddlu yn eu cyfarfod dal i fyny nesaf.

|                 |   |
|-----------------|---|
| Gweithrediad 7b | Arweinydd Risg y CA i adolygu risgiau wedi'u golygu mewn cyfarfod dal i fyny nesaf hefo'r Heddlu. |
|-----------------|---|

## 8. RHAGLEN WAITH 2024/25

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog Cyllid. Diweddarwyd y rhaglen waith drwy gydol y cyfarfod hefo sylwadau'r aelodau.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor a ellid ychwanegu'r canlynol at y rhaglen waith:

- archwiliad diwylliannol gan gynnwys y cynllun gweithredu.

- Diweddariad NEP i gynnwys rheoli data.
- Strategaeth Gyfalaf – er mwyn canolbwyntio ar danwariant.

Dywedodd Archwilio Cymru hefyd mai eu hamserlen ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn 2024/25 a 2025/26 fyddai:

- 2024/25 - 30 Hydref 2025
- 2025/26 - 30 Medi 2026

Cadarnhawyd bod dyddiadau'r cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer 2025 yn cyfateb i'r dyddiadau a nodwyd.

## 9. CYNLLUN ARCHWILIO CYMRU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur a osodwyd ger bron gan Archwilio Cymru.

Nododd Archwilio Cymru eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd hefo'r Tîm Cyllid ac mae'r archwiliad yn mynd rhagddo'n dda.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor pam y gofynnir rhai cwestiynau fel rhai nad ydynt yn berthnasol i'r sector cyhoeddus.

Nododd Archwilio Cymru bod yn rhaid iddyn nhw ofyn/adolygu rhai meysydd a bod yr un rheolau yn berthnasol i'r heddlu o ran awdurdodau lleol.

Nodwyd y dylid ychwanegu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol at y rhestr dogfennau sy'n rhoi sicrwydd i'r Cydbwyllgor Archwilio y cydymffurfiwyd â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol.

Dywedodd aelod o'r Cydbwyllgor nad ydy'r cynllun yn mynd i'r afael hefo gallu Archwilio Cymru i ymgymryd â'r gwaith perthnasol gan gwestiynu pam fod ffioedd Archwilio Cymru wedi codi 6.4% tra bod y CPI yn rhedeg ar 2%.

Dywedodd Archwilio Cymru bod y staff angenrheidiol mewn lle er mwyn cwblhau'r gwaith archwilio erbyn mis Awst yn unol â'r amserlen. Dywedodd Archwilio Cymru fod chwyddiant yn gyfrifol am y cynnydd. Mae eisoes wedi ymgynghori ar y cynnydd arfaethedig y cytunwyd arno ym Mhwylgor Cyllid Llywodraeth Cymru a'i fod yn gynnydd cyffredinol. Nodwyd nad oes hawl gan Archwilio Cymru wneud elw ac os na fydd arian yn cael ei wario, byddant yn ad-dalu.

## 10. CYFLAWNIAD RHEOLI'R TRYSORLYS

Nododd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio gynnwys Cynllun Archwilio 2024.

Dywedodd y Cyfrifydd Rheoli Ariannol ei fod yn ofyniad paratoi'r adroddiad hwn ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i fod yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio er eu gwybodaeth a'u sylwadau.

Nodwyd nad oedd unrhyw doriadau, dim benthycia ychwanegol yn 2023/24 a gwnaeth buddsoddiadau gyflawni'n dda hefo dros £2.4m wedi ei dderbyn mewn llog. Nodwyd hefyd nad ydy'r meincnod dyledion yn dangos y bydd angen benthycia yn ystod y blynyddoedd nesaf.



Holodd aelod o'r Cydbwyllgor am y meincnod dyledion gan ei fod yn ychwanegu cymhlethdod i bwnc sydd eisoes yn gymhleth. Maent yn credu y byddai sylw o dan y tabl ar dudalen 154 o'r papurau'n egluro bod potensial yn y blynyddoedd i ddod i'r sefydliad fod yn agored i risg llog yn fuddiol.

Nodwyd hefyd y byddai eglurhad o fudd o dan Dabl 2 ar dudalen 149 gan ei fod yn un anodd ei ddeall ac angen eglurder.

Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol i gynnwys dyfyniadau o dan y ddau dabl er mwyn esbonio'r data o fewn y tablau.

|                    |  |
|--------------------|--|
| Gweithrediad<br>10 | Cyfrifydd Rheoli Ariannol i roi dyfyniadau o dan y tablau er mwyn egluro data ymhellach. |
|--------------------|--|

## 11. ADRODDIAD CYFREITHIOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch cyfreithiol o fewn yr Heddlu yn ystod y chwe mis diwethaf.

Nododd Cyfreithiwr yr Heddlu fod yr adran ar hyn o bryd yn hysbysebu am Gyngorydd Cyfreithiol newydd er mwyn ymdrin hefo hawliadau sifil ac achosion cyflogaeth. Darperir presenoldeb gan Gyfreithiwr yr Heddlu a chontractio rhai hawliadau cyfreithiol yn allanol.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor am y broses cymeradwyo hepgoriadau i orchymyn sefydlog ac os anfonwyd pob cais drwy'r Adran Gyfreithiol ac a oedd yr Adran Gaffael hefyd yn gysylltiedig.

Eglurodd Cyfreithiwr yr Heddlu fod yr Adran Gaffael a'r Adran Gyfreithiol yn rhan o'r broses hon ac fel Cyfreithiwr Heddlu, caiff ei gynnwys ym mhob cais a anfonir at Swyddfa'r Comisiynydd. Anfonir pob hepgoriad i orchymyn sefydlog trwy swyddfa'r Comisiynydd i'w gymeradwyo. Fel arfer maent yn ymwybodol yn gynnar y bydd angen gwneud hyn h.y. dim ond un darparwr neu barhad o'r cytundeb presennol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y broses dendro ar gyfer cadw cŵn a atafaelwyd mewn cytiau. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Cydbwyllgor Archwilio wrth i'r tendr fynd yn ei flaen.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor fod 25% o'r hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu nodi o ran categori "arall". Gofynnodd a ellid dadansoddi hyn ymhellach fel yr ymddengys ei fod yn cynnwys popeth.

Dywedodd Cyfreithiwr yr Heddlu y bydd yn edrych ac yn ceisio dod â mwy o fanylion i'r categori hwn. Adlewyrchir hyn ym mhapurau'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

|                     |   |
|---------------------|---|
| Gweithrediad<br>11a | Cyfreithiwr Heddlu i egluro pa hawliadau dyledion cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y categori "arall" a'u cynnwys yn y papur nesaf i'r Cydbwyllgor Archwilio. |
|---------------------|---|

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor y byddai'r Adroddiad Cyfreithiol yn elwa o grynodedb rheoli er mwyn tynnu sylw at unrhyw batrymau ac unrhyw bwyntiau nodedig. Mae'n anodd nodi unrhyw faterion a godwyd ar hyn o bryd fel rhestri ac nid prosesau.

Bydd Cyfreithiwr yr Heddlu yn rhoi crynodeb rheolwyr ar ddechrau papurau'r dyfodol i'r Cydbwyllgor Archwilio.

|                     |  |
|---------------------|--|
| Gweithrediad<br>11b | Cyfreithiwr yr Heddlu i roi crynodeb rheolwyr yn tynnu sylw at bwyntiau o bwys ac unrhyw faterion a godwyd ar ddechrau papurau'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol a chysylltu hefo polisi. |
|---------------------|--|

12. **DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

13. **DATGANIAD STRATEGAETH RISG A CHWANT RISG – ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiad Archwaeth Risg yr Heddlu ar gyfer 2024/25.

Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes nad oes unrhyw newidiadau i'r canllawiau ymarfer o'r llynedd, ond mae'r parodrwydd risg wedi cael ei adolygu a'i gyflwyno i Uwch Fwrdd Rheoli'r Heddlu i'w gadarnhau.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a oedd angen ehangu'r awydd am dechnoleg gan fod y parodrwydd am risg yn cyfeirio at feysydd penodol yn unig ac nid ydy'r holl risgiau TGCh/technoleg yn cael eu hamgyffred.

Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes mai dyma sut mae'r ddogfen wedi'i gosod. Bydd y papurau adolygu risg blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Fwrdd Rheoli ddiwedd mis Awst, a bydd hyn yn gyfle i drafod ymhellach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad oedd y parodrwydd risg a restrwyd yn gynhwysfawr ac y byddai gwneud penderfyniadau ar gyfer technoleg yn defnyddio archwaeth risg eraill fel Newid Busnes.

Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i ystyried a thrafod ymhellach hefo Arweinydd Risg a TG y CA mewn cyfarfod all-lein yn bodloni'r parodrwydd risg o ran technoleg.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Gweithrediad<br>13 | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes ac Arweinydd Risg a TG y CA i gyfarfod er mwyn ystyried parodrwydd risg o ran technoleg. |
|--------------------|---|

14. **HUNAN-ASESIAD AC ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**


Nodwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r ddogfen Hunanasesiad a gyflwynwyd.

14. **UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 26 Medi 2024 am 1pm fel cyfarfod hybrid: yn y cnawd yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu, Bae Colwyn a dros Microsoft Teams.

DRAFT



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO  
COFNOD GWEITHREDIADAU o 28/03/2024**

|  |                       |
|--|-----------------------|
|  | <b>Ar agor</b>        |
|  | <b>Wedi cau</b>       |
|  | <b>Wedi ei ohirio</b> |

**Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021**

| <b>DYDDIAD<br/>CYFARFOD</b> | <b>RHIF<br/>COFNOD</b> | <b>DISGRIFIAD GWEITHREDIAD</b> | <b>ANGEN<br/>ERBYN<br/>(DYDDIAD)</b> | <b>SAWL SY'N<br/>GYFRIFOL</b> | <b>DIWEDDARIAD</b> |
|-----------------------------|------------------------|--------------------------------|--------------------------------------|-------------------------------|--------------------|
|-----------------------------|------------------------|--------------------------------|--------------------------------------|-------------------------------|--------------------|

|            |   |   |            |                                |   |
|------------|---|---|------------|--------------------------------|---|
| 28/03/2023 | 8 | <p><b>Diweddariad Risgiau</b> – Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu'r adroddiad ar yr adolygiad rheoli risg gydag aelodau tu allan i'r cyfarfod.</p> | Ar unwaith | Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes | <p><b>28/06/23</b> Rhannwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Rheoli Risg i'w ymgymryd gan Gallagher Bassett hefo'r CA drwy eu Google Drive ar 07/03/23. Ers hynny, mae'r Heddlu wedi newid yswirwyr i Maven. Felly, ni fydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal bellach gan Gallagher Bassett.</p> <p><b>28/09/2023</b> cytunwyd hefo Heddlu De Cymru cynnal yr Adolygiad Cymheiriaid ar 17 Tachwedd 2023.</p> <p><b>18/10/23</b> Cafodd HGC wybod fod Rheolwr Risg HDC ar Salwch Tymor Hir felly cafodd yr adolygiad ei ohirio.</p> <p><b>21/02/24</b> Adolygiadau Cymheiriaid ar draws bob Heddlu wedi cael ei godi gan Neil Ackers yn y Fforwm Rheoli Risg Cenedlaethol. Roedd cydsyniad fod hwn yn syniad arloesol ac mae wedi'i ddatblygu gan Lee Milton, Rheolwr Cynllunio Strategol a Risg Strategol CCPSH. Cafodd y cynnig canlynol ei gynnwys yn adroddiad Lee i Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu ar gyfer eu cyfarfod ar 20 Mawrth 2024.</p> <p><i>“As part of wider risk management discussions through the NRMF, the SPP team have also proposed to test support for a ‘peer assessment’ process. Forces have identified a gap in available peer assessment for risk management, and the potential benefit of a peer support network to undertake some review and baselining of policing’s approach. 5.3.2. Following a request from North Wales Police, a test process has been proposed and will be discussed at the NRMF in March. A terms of reference will be drafted and shared for agreement with forces before work is undertaken. The NRMF is engaged with peer assessment colleagues and the College of Policing to explore proportionate and appropriate support that can be provided to colleagues for agreement with CCC”.</i></p> <p><b>19/06/24</b> Roedd Adolygiad Cymheiriaid yn eitem agenda yn Fforwm Rheoli Risg Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (CCPSH) ym Mhencadlys Heddlu Manceinion Fwyaf. Oherwydd nifer y ffrydiau gwaith parhaus, mae'r Fforwm wedi cytuno bwrw ymlaen hefo'r rhain yn nhrefn blaenoriaeth ac felly ni fydd Adolygiad Cymheiriaid Gogledd Cymru yn cael ei gynnal tan 2025. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau ar gytuno ar Gylch Gorchwyl ac yn cynnwys y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.</p> <p><a href="#">09/09/2024 – Argymell cau'r gweithrediad hyd nes y bydd cynnydd yng Ngwaith Adolygu Cymheiriaid yn genedlaethol yn 2025.</a></p> |
|------------|---|---|------------|--------------------------------|---|

|            |    |  |                       |   |   |
|------------|----|--|-----------------------|---|---|
| 30/07/2024 | 4  | <b>Diweddariad Sefydliadol</b> – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu adroddiad Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth ar y broses torri data personol hefo aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.   | Cyn gynted â phosibl  | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau                |   |
| 30/07/2024 | 5  | <b>Diweddariad a Dilynw'r Gweithrediadau HMICFRS</b> – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y gwersi a ddysgwyd o arolwg PEEL yn y cyfarfod nesaf.                                 | Cyfarfod mis Tachwedd | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | 09/09/24 – Mae'r heddlu'n annhebygol o allu rhannu unrhyw wersi PEEL a ddysgwyd nes iddynt dderbyn yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd. Bydd yr aelodau'n cael eu diweddarau unwaith y byddant yn derbyn yr adroddiad arolygu PEEL terfynol.  |
| 30/07/2024 | 6c | <b>Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr</b> – Y Swyddog Cyllidebau i ymchwilio pam nad oedd unrhyw eglurhad na rhesymeg glir ynghylch pam y gohiriwyd camau archwilio'r Rheoli Fflyd. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y CA. | Cyfarfod mis Medi     | Swyddog Cyllidebau                            | 15/08/24 – Cysylltodd FBO â Rheolwr y Fflyd. Mae'r oedi wrth ddiweddarau polisi oherwydd gallu. Mae wedi dechrau ar y gwaith ar y polisi, ond ni fydd yn cael ei gwblhau tan ddiwedd mis Medi.<br>Diweddariad i'w gynnwys yn adroddiad y CA mis Medi.<br><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b> |
| 30/07/2024 | 7a | <b>Diweddariad Risgiau</b> – Arweinydd Risg a Pharhad Busnes i holi a nodir GanBwyll yn risg ar holl gofrestrau risg heddluoedd Cymru yng nghyfarfod nesaf Cymru gyfan.  | Cyfarfod mis Medi     | Arweinydd Risg a Pharhad Busnes               | 06/09/2024 – Gwnaed ymholiadau hefo heddluoedd eraill yng Nghymru fel y gofynnwyd a chafwyd yr ymatebion canlynol:<br>Heddlu Dyfed Powys – Ia<br>Heddlu Gwent – Ia<br>Heddlu De Cymru – Cofnodwyd ar Gofrestr Materion.<br><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>                               |

|  |     |   |                       |  |  |  |                       |   |  |
|--|-----|---|-----------------------|--|--|--|-----------------------|---|--|
| 30/07/2024   | 7b  | <b>Diweddariad Risgiau</b> – Arweinydd Risg y CA i adolygu risgiau wedi'u golygu mewn cyfarfod dal i fyny nesaf hefo'r Heddlu.  | Cyn cyfarfod mis Medi | Arweinydd Risg y CA a Swyddogion HGC   | <p>06/09/24 – Oherwydd nad ydy Arweinydd Risg y CA ar gael, cynhelir y cyfarfod hwn ar ôl iddo ddychwelyd.</p> <p>Fodd bynnag, rhoddir rhesymeg i bob Risg a Olygwyd pam y dylid rhestru'r risg mewn Sesiwn Gaeedig. Mae hyn wedi'i gofnodi ar y Templed Risg, er enghraifft, Risg 118 Amnewid Rheoli.</p> <table border="1"> <tr> <td><b>Report to JAC in Open or Closed Session</b></td> </tr> <tr> <td><b>Closed Session</b></td> </tr> <tr> <td><b>Detail Rationale if Closed Session below</b></td> </tr> <tr> <td>This Risk is operationally sensitive in that if heard in Open Session may highlight NWP's vulnerability for a Cyber attack</td> </tr> </table> <p>Yn ystod yr ymarfer Sgorio Risg, hysbysir yr Arweinydd Risg y bydd y risg naill ai'n cael ei gyflwyno yn Sesiynau Agored neu Gaeedig y CA. Mae'r Arweinydd Risg yn dewis pa un y maent yn teimlo sy'n briodol ac yn cadarnhau'r penderfyniad hwn mewn e-bost sy'n cael ei gadw yn y ddogfen Word sydd wedi'i gosod ar y risg.</p> <p>Fodd bynnag, bydd yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes yn cysylltu hefo pob Arweinydd Risg o'r risgiau hynny sy'n cael eu golygu ar gyfer Sesiwn Gaeedig. Mae hyn er mwyn adolygu eu penderfyniad cychwynnol a newid unrhyw rai y teimlant y gellir eu clywed mewn Sesiwn Agored.</p> | <b>Report to JAC in Open or Closed Session</b> | <b>Closed Session</b> | <b>Detail Rationale if Closed Session below</b> | This Risk is operationally sensitive in that if heard in Open Session may highlight NWP's vulnerability for a Cyber attack |
| <b>Report to JAC in Open or Closed Session</b>   |     |   |                       |  |  |  |                       |   |  |
| <b>Closed Session</b>  |     |   |                       |  |  |  |                       |   |  |
| <b>Detail Rationale if Closed Session below</b>  |     |   |                       |  |  |  |                       |   |  |
| This Risk is operationally sensitive in that if heard in Open Session may highlight NWP's vulnerability for a Cyber attack |     |   |                       |  |  |  |                       |   |  |
| 30/07/2024   | 10  | <b>Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys</b> – Cyfrifydd Rheoli Ariannol i roi dyfyniadau o dan y tablau er mwyn egluro'r data ymhellach.   | Cyn gynted â phosibl  | Cyfrifydd Rheoli Ariannol  |  |  |                       |   |  |
| 30/07/2024   | 11a | <b>Adroddiad Cyfreithiol</b> – Cyfreithiwr Heddlu i egluro pa hawliadau dyledion cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y categori "arall" a'u cynnwys yn y papur nesaf i'r Cydbwyllgor Archwilio.                                | Cyfarfod mis Rhagfyr  | Cyfreithiwr yr Heddlu  |  |  |                       |   |  |
| 30/07/2024   | 11b | <b>Adroddiad Cyfreithiol</b> – Cyfreithiwr yr Heddlu i roi crynodeb rheolwyr yn tynnu sylw at bwyntiau o bwys ac unrhyw faterion a godwyd ar ddechrau papurau'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol a chysylltu hefo polisi. | Cyfarfod mis Rhagfyr  | Cyfreithiwr yr Heddlu  |  |  |                       |   |  |
| 30/07/2024   | 13  | <b>Datganiad Strategaeth Risg a Chwant Risg - Adolygiad Blynyddol</b> – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes ac Arweinydd Risg a TG y CA i gyfarfod er mwyn ystyried parodrwydd risg o ran    | Cyn cyfarfod mis Medi | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes ac Arweinydd Risg a TG y CA | 06/09/2024 – Cyfarfod wedi'i drefnu'n wreiddiol ar gyfer 30 Awst 2024 ond oherwydd nad oes aelodau o'r CA ar gael, mae'r cyfarfod wedi'i aildrefnu i 11 Medi 2024.   |  |                       |   |  |

**Gweithrediadau wedi cau ers y cyfarfod diwethaf - archifwyd ym mis Ebrill 2024 - caewyd yn flaenorol - ar gael ar gais**

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD  | ANGEN ERBYN (DYDDIAD)       | SAWL SY'N GYFRIFOL                                | DIWEDDARIAD   |
|------------------|-------------|--|-----------------------------|---|---|
| 28/09/2023       | 13          | <b>Sesiwn Frifffio'r CA – Trefniadau Llywodraethu ar y cyd</b> – Y Pennaeth Newid Corfforaethol ac arweinydd TG y CA i drafod y meysydd cydweithredol mwyaf amlwg a'r risg uchaf mewn cyfarfodydd misol. | Cyn cyfarfod mis Rhagfyr    | Pennaeth Newid a Chydweithredu ac Arweinydd TG CA | <p>22/11/2023 – Rhestr o &gt;100 ar y cyd y tu allan i faes gwaith Pennaeth Newid ac ni fyddai gan y cyfarfodydd digidol misol y capasiti i ymwneud ag agenda ehangach.</p> <p>Pennaeth Newid a Chydweithredu yn cydlynu rhestr o'r holl gydweithredu a dyddiadau adolygiadau llywodraeth a gynhaliwyd ac wedi eu cwblhau yn cael eu rhannu gyda CA i gael sicrwydd pellach.</p> <p>07/12/2023 – Holodd aelod o'r CA o ran lle mae'r maes gwaith hwn yn cael ei lywodraethu o fewn yr Heddlu. Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod angen ymgymryd â gwaith ac mae'r Pennaeth Newid Corfforaethol yn llunio rhestr o gydweithrediadau a sut maent yn cael eu llywodraethu ar hyn o bryd.</p> <p>06/03/2024 – Crëwyd cofrestr cydweithrediadau ac fe'i cadwyd ar Google Drive. Ar ben hyn, mae Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar gydweithredu ar hyn o bryd.</p> <p>04/07/2024 – Mae Archwilio Mewnol wedi ymgymryd ag adolygiad ar y cyd a nodwyd sicrwydd sylweddol. Yn ogystal, mae'r argymhelliad yng nghanfyddiadau'r archwiliad yn y broses o gael ei weithredu.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p> |
| 07/12/2023       | 4           | <b>Diweddariad Sefydliadol</b> – Y Prif Swyddog Gweithredol i gylchredeg yr ateb i'r cwestiwn sydd ar ôl sy'n codi o'r diweddariad sefydliadol i aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod.                     | Ar unwaith                  | Y Prif Weithredwr                                 | <p>11/12/2023 – Rhoddwyd diweddariad i aelodau'r CA.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>  |
| 28/03/2024       | 6a          | <b>Archwilio Mewnol</b> – Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i anfon unrhyw sylwadau ar y rhaglen gwaith ymlaen at staff cyn cyfarfod mis Gorffennaf.   | Cyn y cyfarfod nesaf        | Cydbwyllgor Archwilio                             | <p>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>  |
| 28/03/2024       | 7a          | <b>Diweddariad Risgiau</b> – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i edrych ar Risg 81 a 119 yn fanylach a diweddarau'r Cydbwyllgor yng  | Cyn cyfarfod mis Gorffennaf | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol     | <p><b>20/06/24 – Diweddariad gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes</b></p> <p>Mae risgiau 81 a 119 bellach wedi'u diweddarau gan yr Arweinwyr Risg ac mae cais wedi'i wneud i Uwch Dîm Rheoli Cyllid ac Adnoddau awdurdodi cau risgiau a chael gwared ar Gofrestr Risg yr Heddlu.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>  |



|            |    |  |                             |   |  |
|------------|----|--|-----------------------------|---|--|
|            |    | nghyfarfod mis Gorffennaf.   |                             |   |  |
| 28/03/2024 | 7b | <b>Diweddariad Risgiau</b> – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i ofyn i'r Arweinydd Risg ddiweddar tabl 1 o fewn y ddogfen er mwyn sicrhau bod ffigyrau'n cael eu hadio'n gywir. | Cyn cyfarfod mis Gorffennaf | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | 14/06/24 Diweddariad gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes – Ymddiheuriadau, roedd hwn yn 'deipo' a fethwyd, a dylai'r ffigwr cywir fod wedi bod yn 26 risg HGC sydd ar hyn o bryd wedi'u cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ac nid 27 fel y nodwyd yn adroddiadau'r CA diwethaf.<br><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b> |
| 28/03/2024 | 9  | <b>Archwilio Cymru</b> – Y Prif Swyddog Cyllid i godi'r cwestiynau hefo Archwilio Cymru yn eu cyfarfod hefo nhw a gofyn am ymateb erbyn diwedd mis Ebrill.                                     | Ar unwaith                  | Prif Swyddog Cyllid                           | Holwyd Archwilio Cymru a rhannwyd atebion hefo'r Cydbwyllgor Archwilio 02/05/2024.<br><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>   |
| 28/03/2024 | 10 | <b>Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)</b> – Y Pennaeth Cyllid i rannu sleidiau a gyflwynwyd yn y cyfarfod hefo aelodau'r Cydbwyllgor.                             | Ar unwaith                  | Pennaeth Cyllid                               | Rhannwyd hefo aelodau o'r CA 04/07/2024.<br><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>   |

| Allwedd Talfyriadau |  |
|---------------------|--|
|                     |  |
| <b>PG</b>           | Prif Gwnstabl  |
| <b>PSG</b>          | Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)                                       |
| <b>PSC</b>          | Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)  |
| <b>CCA</b>          | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)                                   |
| <b>HMICFRS</b>      | Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Fawrhdy |
| <b>CA</b>           | Cydbwyllgor Archwilio  |
| <b>HGC</b>          | Heddlu Gogledd Cymru   |
| <b>SCHTH</b>        | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd                                |
| <b>CP</b>           | Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC                                   |
| <b>CHTH</b>         | Comisiynydd Heddlu a Throsedd  |
| <b>ASP</b>          | Adran Safonau Proffesiynol (HGC)                                       |

|             |                         |
|-------------|-------------------------|
| <b>TIAA</b> | Archwilio Mewnol        |
| <b>SAC</b>  | Swyddfa Archwilio Cymru |



**HEDDLU GOGLEDD CYMRU**  
Gogledd Cymru diogelach

**NORTH WALES POLICE**  
A safer North Wales



**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES**

## Cydbwyllgor Archwilio

### Dyddiad y Cyfarfod:

|   |  |
|---|--|
| <b>Teitl:</b>   | Diweddariad Sefydliadol y SCHTh  |
| <b>Awdur:</b>   | Stephen Hughes   |
| <b>Diben yr adroddiad:</b>                                      | Diweddarau aelodau'r CA ar weithgarwch allweddol SCHTh ers y cyfarfod diwethaf   |
| <b>Lefel Sicrwydd:</b>  | Uchel. Cynhelir cyfarfodydd craffu bob chwarter ac maent yn adrodd i Fwrdd Rheoli SCHTh er mwyn i'r CHTh fwrw golwg. Pan mae angen, caiff meysydd sy'n peri pryder eu huwchgwyfeirio at y Bwrdd Gweithredol Strategol am graffu ymhellach. |
| <b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:<br/>(ticiwch un)</b> | <input type="checkbox"/> Penderfyniad<br><input type="checkbox"/> Trafodaeth<br><input type="checkbox"/> Sicrwydd<br><input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth  |
| <b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>                           | Crynodeb o'r craffu a wnaed gan SCHTh.   |
| <b>Argymhellion:</b>  | Bod aelodau'r CA yn nodi'r adroddiad   |
| <b>Effaith cofrestr risgiau:</b>                                | Dim  |
| <b>Goblygiadau sicrwydd:</b>                                    | Dim  |
| <b>Effaith Cydraddoldeb:</b>                                    | Dim  |
| <b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddatleniad:</b>                 | Dim  |



## Cydbwyllgor Archwilio 25 Medi 2024

### Diweddariad Sefydliadol y SCHTh

#### Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 30 Gorffennaf 2024. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny. Canolbwyntir yn bennaf ar y craffu gan y SCHTh.

#### Bwrdd Craffu Datblygu Pobl a Sefydliadol

Cyn bo hir, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyflwyno'r Bwrdd Craffu Datblygu Pobl a Sefydliadol (DPS) sef y fforwm craffu swyddogaethau a gyflawnir gan Adran DPS yr Heddlu. Bydd y Bwrdd Craffu DPS yn:

Monitro a chraffu'r ffordd mae cyfrifoldebau DPS yn cael eu trin gan Heddlu Gogledd Cymru. Y bwriad ydy bodloni ei hun bod y trefniadau a'r prosesau sydd yn eu lle yn briodol ac yn effeithiol.

Ysbrydolir craffu gan adroddiad dadansoddi wedi'i baratoi gan y Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol, yn benodol ar gyfer y cyfarfod chwarterol. Bydd y cynnwys wedi'i strwythuro o amgylch Strategaeth y Bobl a'r Cynllun Cyflawni (gan ddefnyddio'r wybodaeth a grëir trwy'r fforymau llywodraethu mewnol cysylltiedig). Er enghraifft:

- Bydd y SCHTh yn monitro patrymau yn y pynciau a ddewiswyd i'w craffu. Bydd hefyd yn monitro'r Heddlu ar y camau y mae'n eu cymryd lle nodir problemau.
- Bydd y SCHTh yn ystyried polisiau DPS sydd fod cael eu hadolygu yn y chwarter nesaf. Bydd hefyd yn derbyn diweddariadau ar bolisiau DPS sydd wedi cael eu hadolygu yn y chwarter blaenorol.
- Bydd y SCHTh yn monitro ac yn craffu ar gyflawniad yr Heddlu wrth weithredu argymhellion o arolygon AHEF a/neu bobl eraill mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.
- Bydd y SCHTh yn ystyried materion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol sy'n berthnasol i'r maes busnes DPS.

## SWYDDOGOL

### Bwrdd Craffu Checkpoint

Yn ddiweddar, cadeirydd Bwrdd Craffu Checkpoint oedd y Dirprwy Brif Gwnstabl. Diben Bwrdd Craffu Checkpoint Cymru ydy rhoi sicrwydd a goruchwyliaeth i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) o ran cyflwyno Cynllun Dargyfeirio Checkpoint Cymru. Mae'r Bwrdd yn galluogi craffu priodol ar y gwasanaeth comisiynu hwn, er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyflawni Cynllun Heddlu a Throsedd mewn sawl ffordd, sef:

- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a darparu cymorth er mwyn adsefydlu troseddwr
- Dargyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol
- Gwella effeithiolrwydd cynlluniau cymorth i ferched, gan ategu'r Strategaeth Cyfiawnder i Ferched
- Sicrhau bod y gyllideb ar gyfer Checkpoint Cymru yn cael ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol

Datblygwyd a gweithredwyd y Cynllun yn wreiddiol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh). Felly, mae ei weithredu'n barhaus yn bwysig i'r CHTh. Ar ben hynny, bydd y Bwrdd yn caniatáu i'r CHTh roi cymorth i'r tîm Checkpoint er mwyn ymgorffori ei waith ymhellach o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

### Amcanion y Bwrdd

- Goruchwyllo Cynllun Checkpoint Cymru
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac effeithlon
- Sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd â Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd
- Cynorthwyo gwaith y Rheolwr Checkpoint
- Cynorthwyo Uwcharolygydd y Ganolfan Atal wrth wreiddio'r cynllun a'i ethos i fusnes craidd Heddlu Gogledd Cymru
- Sicrhau bod y Cynllun yn cyflawni gwerth am arian fel gwasanaeth a gomisiynwyd gan SCHTh

### Panel Craffu Datrysiadau Allan i'r Llys

Bwriad y panel craffu ydy dod â mwy o dryloywder a chysondeb yn y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, er mwyn cynyddu dealltwriaeth, hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

Amcan y panel ydy asesu, craffu a rheoli ansawdd y defnydd o ddatrysiadau tu allan i'r llys, yn Heddlu Gogledd Cymru yn annibynnol. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfleu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaeth arall o dan sylw. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae'r panel yn cyfarfod bob chwarter hefo cworwm o bump, a ddylai gynnwys y Cadeirydd, Heddlu Gogledd Cymru, Cymorth i Ddiodefwyr, ac Ynad. Ar ôl trafod, bydd pob achos fel arfer yn mynd i un o bedwar chategori –

## SWYDDOGOL

1. Defnydd priodol a chyson hefo polisi/canllawiau
2. Defnydd priodol hefo amheuon aelodau'r panel
3. Defnydd amhriodol neu anghyson hefo polisi/canllawiau
4. Y panel yn methu dod i gasgliad

Yna rhoddir adborth yn ôl i Heddlu Gogledd Cymru drwy adroddiad i'r Gwasanaethau Cyfiawnder.

### **Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol**

Swyddfa Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ydy'r fforwm craffu ar gyfer yr holl swyddogaethau a gyflawnir gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu. Mae'r Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol yn monitro a chraffu'r ffordd y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin â chwynion a honiadau o gamymddygiad. Mae hyn er mwyn bodloni ei hun bod y trefniadau a'r prosesau sydd yn eu lle yn briodol ac yn effeithiol. Ysbrydolir craffu gan strategaeth reoli'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol a'r ddogfen ddadansoddi a baratuir yn benodol ar gyfer y cyfarfod chwarterol. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o gwynion, camymddygiad a phroblemau cyflawni ledled yr Heddlu
- Cyflawni amseroldeb trin cwynion
- Data gwrthlygredd (i gynnwys data ar gysylltiadau adroddadwy)
- Gwaharddiadau / cyfyngiadau
- Y nifer o negeseuon ysgrifenedig a ryddhawyd gan yr heddlu o dan reoliad 13 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol"
- Achosion o ddiddordeb penodol
- Materion y cyfeirir at SAYH yn y flwyddyn hyd yma
- Gwybodaeth bellach sy'n bodloni gofynion Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2021 (**Atodiad A**).

|                            |  |
|----------------------------|--|
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Stephen Hughes, Prif Weithredwr</b> |
|----------------------------|--|



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**  
**OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES**

### Cydbwyllgor Archwilio

**Dyddiad y Cyfarfod: 25 Medi 2024**

|   |   |
|---|---|
| <b>Teitl:</b>   | Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru  |
| <b>Awdur:</b>   | Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau  |
| <b>Diben yr adroddiad:</b>                                      | Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am brif ddigwyddiadau a materion sefydliadol sy'n digwydd ers cyfarfod diwethaf o'r CA.   |
| <b>Lefel Sicrwydd:</b>  |   |
| <b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:<br/>(ticiwch un)</b> | <input type="checkbox"/> Penderfyniad<br><input type="checkbox"/> Trafodaeth<br><input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd<br><input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth  |
| <b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>                           | <p>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod o 06.07.24 tan 04.09.24.</p> <p>Mae'r materion a'r digwyddiadau yn cael eu dadansoddi rhwng pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.</p> <p>Mae'r adroddiad rhoi cipolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio ar yr ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn HGC. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod rhai materion pwysig y mae'r Pwyllgor Archwilio eisoes yn edrych arnynt yn parhau mynd rhagddynt.</p> <p>Nid oes angen unrhyw benderfyniadau nac ymatebion gan y cydbwyllgor o ran y cynnwys.</p> |
| <b>Argymhellion:</b>  | Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.  |
| <b>Effaith cofrestr risgiau:</b>                                | Dim.  |
| <b>Goblygiadau sicrwydd:</b>                                    | Dim.  |
| <b>Effaith Cydraddoldeb:</b>                                    | Dim.  |
| <b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>                 | Dim – Holl gynnwys yn y Sesiwn <b><u>Agored</u></b>   |

# CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

25 Medi 2024

## Diweddariad Sefydliadol

### Adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru

#### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod o 06.07.24 tan 04.09.24.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

#### 2. Cyllid

- Mae'r amcanestyniadau refeniw blwyddyn lawn wedi'u creu ddiwedd Ch1 hefo'r ffigyrau refeniw blwyddyn lawn yn amcanestyn tanwariant o £0.452m, felly ar y gyllideb yn sylweddol. Mae disgwyl cadarnhad o ran nifer o grantiau ychwanegol.
- Cyhoeddodd y Llywodraeth ddyfarniad cyflog o 4.75% ar gyfer swyddogion heddlu ym mis Gorffennaf 2024. Rhagwelir y bydd elfen o gyfraniad ariannol ychwanegol gan y Llywodraeth yn cyd-fynd â'r dyfarniad cyflog o gymorth i'w ariannu. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol pellach yn cael eu rheoli drwy'r broses gynllunio sefydliadol sydd ar ddod. Mae dyfarniad cyflog swyddog yr heddlu yn effeithiol o 01.09.24. Disgwylir penderfyniad gan Gyngor Staff yr Heddlu ar ddyfarniad cyflog i staff heddlu. Mae disgwyl hefyd eglurder ynghylch sut y bydd unrhyw gyllid cysylltiedig yn cael ei ddyrannu.
- Mae'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2024-25 wedi'i diwygio o'r gyllideb wreiddiol o £18.119m i £18.913m. Rhagwelir na fydd yr holl £18.9m yn cael ei wario yn 2024-25. Mae ailasesu ac ailgyflwyno'r rhaglen yn raddol yn parhau, ond yr asesiad cyllid corfforaethol cychwynnol ydy y disgwylir i 31% o brosiectau gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae 6% eisoes wedi cadarnhau nad ydynt yn cael eu darparu'r flwyddyn ariannol hon ac mae 63% yn dal i'w gadarnhau.
- Mae cynllunio ar gyfer cyllidebau 2024-25 ar y gweill. Bydd yr Arweinwyr Gwasanaeth a Swyddogaethol yn edrych dros weddill y cyllidebau gan ddefnyddio proses lywodraethu debyg i'r un a fabwysiadwyd dros y 3 blynedd diwethaf.
- Daw deddfwriaeth caffael newydd i'r Heddlu o 23 Hydref 2024, hefo'r tîm Caffael yn gweithio trwy'r goblygiadau o ran paratoi.
- Mae'r Canghellor wedi cyhoeddi y bydd cyllideb yr Hydref yn cael ei chynnal ar 30 Hydref lle mae disgwyl penderfyniadau anodd. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud yn genedlaethol er mwyn llywio Adolygiad Gwariant (hefo'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr diwethaf yn digwydd yn 2021).



### 3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

- 3.1 Mae'r Heddlu'n parhau i fod ar y trywydd iawn er mwyn cyflawni ei darged cyfrif pennau ar gyfer 2024-25. Mae hefyd yn cyflawni ei darged cynnydd dros dro ychwanegol o 10 arall (gan fynd â'r ffigwr i 1737 o Swyddogion Heddlu) ar y dyddiad asesu sef 30 Medi 2024. Derbyniwyd 16 SCCH arall ym mis Gorffennaf hefyd wrth i HGC geisio cynnal ei gryfder yn y maes hwn.
- 3.2 Mae Strategaeth Cynrychioli'r Gweithlu, cynllun cyflawni a model cyflawni HGC wedi cael eu hadolygu ar ôl edrych ar arfer da mewn mannau eraill. Bydd y sylw rŵan yn troi at gyflawni'r strategaeth ddiweddaraf.
- 3.3 Mae gwaith yn dilyn yr archwiliad Diwylliannol yn parhau symud ymlaen hefo'r 'Rhaglen arweinyddiaeth Gynhwysol' yn dod i ben ym mis Gorffennaf 24. Mae arolwg Niwroamrywiaeth yn cael ei lansio ym mis Awst24. Credir mai HGC ydy'r heddlu cyntaf i gynnal arolwg o'r fath ar y raddfa hon. Dylai'r ddirnadaeth sy'n deillio o hynny alluogi darparu cymorth penodol lle mae ei angen fwyaf wrth i ni ymdrechu creu diwylliant mwy cynhwysol.
- 3.4 Ailddatganodd yr Heddlu ei ymrwymiad i'r Gymraeg, gan gymhwyso'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â bod yn Nodwedd Warchoddedig a sicrhau y gallwn ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â hwy yn y ffordd briodol. Mae gwaith ar y gweill er mwyn edrych ar ein prosesau recriwtio a hyrwyddo ar y cyd â'r Coleg Plismona yn hyn o beth.
- 3.5 Mae gwaith yn parhau o ran mapio doniau. Mae arolwg Cymorth Doniau a Datblygiad Proffesiynol wedi cael ei anfon at yr holl weithwyr sy'n rheng prif arolygydd ac uwch a staff heddlu cyfatebol. Caeodd yr arolwg ar 3 Medi 2024. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio er mwyn cynorthwyo nodi llwybrau doniau.
- 3.6 Mae oddeutu 650 o swyddogion HGC yn cael eu heffeithio gan Ddatrasiad Pensiynau McCloud. Rhoddwyd Datganiad Buddion Blynnyddol- Datganiad Gwasanaeth Adferol i'r rhan fwyaf o'r swyddogion hyn ddiwedd mis Awst 24 hefo nifer i'w cyhoeddi eto. Mae'r rhai yr effeithir arnynt yn cael eu cynorthwyo. Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy'r Hyb Pensiynau, Tîm Cenedlaethol CCPSH a XPS, ein Gweinyddwr Pensiwn.
- 3.7 Mae gwaith yn parhau ar raglenni newid yr Heddlu hefo gosod defnydd Ap Symudol a'r gwaith parhaus ynghylch y system Reoli yn uwchraddio meysydd o dan sylw blaenoriaethol.

### 4. Gweithredol

- 4.1 Mae'r heddlu'n parhau'n amlwg yn y data diweddar sy'n cael ei gyhoeddi gan Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Rhoddir yr uchafbwyntiau isod:
  - 1af am drin pobl yn deg
  - 2il am drin pobl hefo parch
  - 4ydd am fod hefo hyder cyffredinol
  - 2il am risg troseddau mewn cartrefi
  - 3ydd gostyngiad mwyaf yng nghyfanswm troseddau a gofnodwyd sef 12.9% o'i gymharu â gostyngiad cenedlaethol sef 3.2%
  - 7fed gostyngiad mwyaf mewn troseddau Trais yn erbyn Unigolyn, hefo gostyngiadau i'w gweld ar draws Trais hefo a heb anaf a Stelcio ac Aflonyddu

- 2il ostyngiad blynyddol mwyaf mewn Troseddau Rhywiol
  - 2il isaf o ran lladradau
  - 3ydd isaf o ran troseddau cerbydau
  - 8fed gyfradd isaf o ran byrgleriaethau preswyl yn genedlaethol a gostyngiad gwell na'r cyfartaledd o un flwyddyn i'r llall
- 4.2 Cynhaliodd HMICFRS arolygiad PEEL (Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu) gan ddod â'i waith maes i ben yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 24. Cynhaliwyd ôl-drafodaeth ar 5 Awst 2024 ac mae'r Heddlu'n aros am yr adroddiad ffurfiol.
- 4.3 Mae'r Heddlu wedi caffael 30 o ddiffibrilwyr ychwanegol drwy bartneriaeth hefo 'Achub Bywyd Cymru'. Maent bellach ym mhob cerbyd yr Uned Troseddau Ffyrdd (RCU), Cerbydau Ymateb Arfog (ARVs) a cherbydau'r tîm Troseddau Cefn Gwlad. Mae nifer o ddiffibrilwyr hefyd wedi'u gosod mewn gorsafoedd heddlu.
- 4.4 Bu peth oedi cyn cyflwyno cerbydau newydd yn dilyn problem hefo'r cyflenwr sy'n darparu'r celloedd sy'n ymddangos yn y cerbydau ymateb. Mae cyflenwr arall wedi'i nodi. Cawsant hyfforddiant, ac mae archeb hefo blaenoriaeth wedi'i chadarnhau er mwyn sicrhau bod y cerbydau'n cael eu cyflwyno i'r ardaloedd mwyaf anghenus cyn gynted ag y gallant fod.
- 4.5 Cafodd gorsaf heddlu Caernarfon ei hail-agor yn swyddogol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ym mis Gorffennaf 24 yn dilyn gwaith moderneiddio.
- 4.6 Lansiodd Ymgyrch Early Dawn ddiwedd mis Awst mewn ymateb i'r cyhoeddiad bod stadau carchardai ar draws y wlad yn llawn. Daeth pedwar carcharor i gelloedd yr heddlu yng Ngogledd Cymru ac fe gawsant eu symud yn gyflym unwaith y gwnaed trefniadau hefo'r llysoedd a'r gwasanaeth hebrwng carchardai. Mae paratodau ar y gweill ar gyfer rhyddhau carcharorion pellach yn y dyfodol.
- 4.7 Yn ystod y cyfnod, darparodd HGC gymorth cilyddol i heddluoedd eraill, gan ddarparu cymorth i Lannau Mersi a Northumbria yn ystod yr anhrefn cyhoeddus cenedlaethol yn dilyn y digwyddiadau trasig a ddigwyddodd yn Southport. Er na welwyd anhrefn yng Ngogledd Cymru, bu sawl euogfarn yn cynnwys annog casineb hiliol ar-lein.
- 4.8 Mae monitro cyflawniad ar lefel yr Heddlu a SCHTh yn parhau hefo diweddariadau cyflawniad allweddol gan y Bwrdd Gweithredu Strategol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024 gan gynnwys adroddiadau at wraidd y mater i feysydd blaenoriaeth Amlygrwydd ac Ymgysylltu a Phlisma Cymdogaethau.

## 5. Cyhoeddus / Cymunedol

- 5.1 Ers lansio Cyfnod 1 'Gofal lawn Pobl lawn' 6 mis yn ol, ymatebodd swyddogion i 1,800 yn llai o ddigwyddiadau oherwydd ei bod yn fwy priodol i asiantaethau eraill reoli'r digwyddiadau. Mae gwaith cyflawni manteision sy'n asesu effaith hyn yn parhau.
- 5.2 Ar hyn o bryd mae'r Heddlu'n gweithio trwy amnewid ei seilwaith llinell gopr. Disgwylir i hyn gael effaith ar ei amseroedd ymateb galwadau 999 unwaith y bydd wedi'i weithredu'n llawn.

## 6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

### Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 26 Medi 2024

|   |  |
|---|--|
| <b>Teitl:</b>   | Adroddiad HMICFRS  |
| <b>Awdur:</b>   | Sarah O'Hara, Archwilio ac Arolygu   |
| <b>Diben yr adroddiad:</b>                                  | Rhoi trosolwg i aelodau'r pwyllgor am ganfyddiadau dros dro arolwg PEEL 2024 ac arolygon arfaethedig. ( <i>Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu</i> ).   |
| <b>Lefel Sicrwydd:</b>                                      | Uchel  |
| <b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b> | <input type="checkbox"/> Penderfyniad<br><input type="checkbox"/> Trafodaeth<br><input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd<br><input type="checkbox"/> Gwybodaeth  |
| <b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>                       | <ul style="list-style-type: none"><li>Mae cyfnod Arolygu PEEL HMICFRS bellach wedi dod i ben, hefo canfyddiadau cychwynnol wedi cael eu cyflwyno i'r Prif Swyddogion ar 5 Awst. Mae tystiolaeth ychwanegol wedi'i darparu wedi ôl-drafodaeth i HMICFRS ar y meysydd yr oedd yr heddlu am gynnig mewnwelediad pellach arnynt.</li><li>Ni fydd graddfeydd a meysydd i'w gwella a nodwyd yn hysbys hyd nes y bydd adroddiad drafft PEEL yn cael ei rannu hefo'r heddlu oddeutu 30 Medi 2024. Yna bydd gan yr heddlu gyfnod o bythefnos er mwyn ymateb i unrhyw anghywirdebau fel rhan o'r gwiriadau cyn cyhoeddi.</li><li>Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2024.</li><li>Mae'r adroddiad sy'n dod â chasgliad canfyddiadau arolwg thematig Troseddau Mewnffudo Trefnedig yn dal i gael ei gyhoeddi.</li><li>Mae fframwaith a dull diwygiedig wedi'u cyhoeddi er mwyn i heddluoedd eu defnyddio ar gyfer arolygiadau uniondeb yr heddlu a'r arolygon gwarchod plant cenedlaethol.</li><li>Disgwylir adolygiad cynnydd y meysydd i'w gwella a nodwyd o ran yr arolwg Troseddau Trefnedig Difrifol ym mis Tachwedd 2024. Mae dyddiad i'w gadarnhau.</li></ul> |
| <b>Argymhellion:</b>  | Dim.   |
| <b>Effaith cofrestr risgiau:</b>                            | Dim.   |
| <b>Goblygiadau sicrwydd:</b>                                | Dim.   |
| <b>Effaith Cydraddoldeb:</b>                                | Dim.   |
| <b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>             | Canfyddiadau Arolwg PEEL cychwynnol; er gwybodaeth i'r heddlu yn unig.   |



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES



**HEDDLU GOGLEDD CYMRU**  
Gogledd Cymru diogelach

**NORTH WALES POLICE**  
A safer North Wales



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**Dyddiad: 26 Medi 2024**

**Papur: Adroddiad HMICFRS**

**Awdur: Sarah O'Hara**



### 1. Diben

Rhoi trosolwg i aelodau'r pwyllgor o ganfyddiadau dros dro arolwg PEEL (Effeithiolrwydd yr Heddlu, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb) 2024 ac arolygiadau arfaethedig.

### 2. Arolygon PEEL

Mae HMICFRS wedi diolch i'r sefydliad am yr ymgysylltiad a'r lletygarwch a dderbyniwyd gan swyddogion a staff yn ystod y broses arolygu PEEL hon, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2024 ac sydd bellach ar fin dod i ben.

Cafodd canfyddiadau'r arolwg eu cyflwyno gan HMICFRS i Brif Swyddogion ar ddydd Llun 5 Awst. Cyflwynwyd y canfyddiadau cychwynnol hyn trwy PowerPoint hefo crynodebau maes cwestiwn wedi'u hamlygu trwy bwyntiau bwled. Sylwch nad oes unrhyw ddyfarniad neu feysydd i'w gwella wedi'u graddio wedi'u cyflwyno gan yr arolygiaeth ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu ar bwynt yr adroddiad drafft ac nid ynghynt. Dylai aelodau hefyd sylwi bod hon yn ôl-drafodaeth gynnar. Felly, er ei fod yn arwydd o'r hyn y gellir ei ddisgwyl yn yr adroddiad terfynol, nid drafft terfynol ydy hwn o bell ffordd ac efallai y bydd yn newid. Mae copi o'r cyflwyniad hwn wedi'i atodi i'r adroddiad hwn er mwyn i chi weld.



NWP Debrief 2024  
for NWP.pptx

Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r canfyddiadau cychwynnol a gyflwynwyd gan HMICFRS. Teimlwyd nad oedd rhai meysydd yn adlewyrchu safbwynt yr heddlu yn gywir. Er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth bellach HMICFRS yn y meysydd hyn, lluniwyd adroddiad at ei gilydd hefo eglurhad neu dystiolaeth bellach i HMICFRS.

Mae'r heddlu rŵan yn aros am fersiwn ddrafft yr adroddiad er mwyn cwblhau ei wiriadau cyn cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r adroddiad a chyfle i herio unrhyw anghywirdebau. Disgwylir i'r adroddiad gael ei dderbyn oddeutu 30 Medi



2024, hefo trosiad am bythefnos am ymateb. Rhagwelir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2024.

### 3. Arolygon Eraill

- **Arolygon Thematig:**
  - **Troseddau Mewnfudo Trefnedig:** Cafodd Heddlu Gogledd Cymru ei ddewis i gymryd rhan yn yr arolwg thematig i Droseddau Mewnfudo Trefnedig, a gynhaliwyd ym mis Mai yn gynharach eleni. Mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn yr hydref, ond nid oes dyddiadau wedi'u cyflwyno eto, nac adroddiad drafft hyd yma.
  - Nid oes unrhyw arolygon eraill yn y dyddiadur. Mae archwiliadau thematig fel arfer yn rhoi chwe wythnos o rybudd i rymoedd.
- **Arolygon Gwarchod Plant Cenedlaethol**
  - Mae HMICFRS wedi adnewyddu eu fframwaith a'u dull Arolygu Gwarchod Plant Cenedlaethol, sy'n cynnwys penderfyniad i raddio heddluoedd yn y maes hwn erbyn hyn, a oedd yn naratif yn unig cyn hynny. Rydym bellach yn edrych ar weithio hefo arweinwyr gwasanaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n cael ei baratoi a'i gyfarparu hefo'r fframwaith arolygu newydd. Mae hyn er mwyn cynnal ymarfer meincnodi cynnar er mwyn deall ein sefyllfa. Mae rhagor o wybodaeth am y pwnc arolygu hwn ar gael yma: [Rhaglen arolygu gwarchod plant genedlaethol – fframwaith – Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi \(justiceinspectrates.gov.uk\)](#)
- **Arolygon Uniondeb yr Heddlu**
  - Er ei bod yn cael ei thynnu oddi ar amserlen archwiliad PEEL heddluoedd, ychwanegir yr elfen uniondeb at yr adroddiad ar ôl ei gyhoeddi, fel yr un ar droseddau trefnedig difrifol. Mae elfen uniondeb yr arolwg yn ystyried safonau proffesiynol, trefniadau fetio a gwrth-lygredd o fewn heddlu. Nid oes dyddiadau wedi'u pennu ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Ond yn yr un modd â'r uchod, rydym bellach yn edrych ar weithio hefo arweinwyr gwasanaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n cael ei baratoi a'i gyfarparu hefo'r fframwaith arolygu newydd er mwyn cynnal ymarfer meincnodi cynnar er mwyn deall ein safbwynt. Mae rhagor o wybodaeth am y pwnc arolygu hwn ar gael yma: [Rhaglen arolygu gwarchod plant genedlaethol – dull – Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi \(justiceinspectrates.gov.uk\)](#)
- **Troseddau Trefnedig a Difrifol**
  - Mae disgwyl i Heddlu Gogledd Cymru adolygu'r cynnydd a wnaed tuag at y meysydd i'w gwella ym mis Tachwedd 2024. Mae'r heddlu'n hyderus y bydd y gwaith a wnaed hyd yma ac yn parhau yn bodloni'r



arolygiaeth. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf wedi'i hatodi ar gyfer gwybodaeth.




SOC AFI Updates to JAC.pptx

#### 4. Argymhellion a meysydd i'w gwella

Mae'r argymhellion a'r meysydd i'w gwella sy'n cael eu neilltuo i bob heddlu yn dilyn archwiliad cenedlaethol wedi'u nodi isod, hefo llawer ohonynt ar adeg adolygu/cofrestru. Mae'r argymhellion o'r adroddiad Fetio, Camymddwyn a Chasineb at Ferched wedi'u hepgor o'r isod oherwydd bod ei broses wirio yn digwydd ar wahân gan y tîm arolygu penodedig. Fodd bynnag, maent i gyd mewn sefyllfa o fod ar gau.

## National Thematic Recommendations/AFIs in progress





## **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

Medi 2024

# 1.

## Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

### Cyflwyniad

- Mae'r adroddiad rheolaeth sicrwydd cryno hwn yn cynnig diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i Lywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol ac ar gynnydd ein gwaith yn Heddlu Gogledd Cymru ar 4 Medi 2024.

### TIAA Ltd yn dod yn Gorfforaeth B Ardystiedig

- Mae TIAA Ltd wedi cyflawni ei ardystiad fel Corfforaeth B (neu Corff B), gan ymuno hefo mudiad cynyddol o gwmnïau sy'n aildyfeisio busnes er budd pawb a'n planed. Wedi'i wirio gan B Lab, y sefydliad nid-er-elw y tu ôl i'r mudiad Corff B, mae'r cyflawniad yn dangos bod TIAA Ltd yn bodloni safonau uchel o gyflawniad, tryloywder ac atebolrwydd cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr ag ymrwymiad i nodau y tu hwnt i werth cyfranddalwyr.

Daw'r newyddion wrth i'r argyfwng hinsawdd parhaus ac ehangu anghydraddoldeb cymdeithasol barhau achosi heriau brys i'n heconomi. Mae Ardystiad Corff B yn asesu gweithrediadau busnes yn ei gyfanrwydd ac ar hyn o bryd mae'n cwmpasu pum prif faes effaith: Llywodraethu, Gweithwyr, Cymuned, Amgylchedd a Chwsmeriaid. Mae'r broses ardystio yn drylwyr. Mae'n ofynnol i gwmnïau gyrraedd sgôr o 80 pwynt yn yr Asesiad Effaith B wrth ddarparu tystiolaeth o arferion cyfrifol yn ymwneud â chyflenwadau ynni, gwastraff a defnyddio dŵr, iawndal gweithwyr, amrywiaeth, a thryloywder corfforaethol. Rhaid i fusnes hefyd ymgorffori ei ymrwymiad i ddiben yn ogystal ag elw yn gyfreithiol yn adrannau eu cwmni.

Mae TIAA Ltd bellach yn rhan o gymuned gynyddol o dros 8,000 o fusnesau ledled y byd sydd wedi ardystio fel Corff B. Mae'r gymuned Corff B yn y DU yn un o'r rhai mwyaf sy'n tyfu gyflymaf yn y byd, hefo dros 1,700 o gwmnïau yn rhychwantu ystod o wahanol ddiwydiannau a meintiau. Mae'r enwau yn cynnwys The Guardian, Innocent Drinks, Patagonia, Tony's Chocolonely, The Big Issue, Finisterre, Elemis, a Sipsmith Gin.

### Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad diwethaf SICA i'r Cydbwyllgor Archwilio

- Mae'r tabl isod yn gosod manylion o'r archwiliadau sydd wedi eu cwblhau ers y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad blaenorol SICA

| Adolygiad | Gwerthusiad | Dyddiadau Allweddol     |                         |                          | Niferoedd Argymhellion |   |   |     |
|-----------|-------------|-------------------------|-------------------------|--------------------------|------------------------|---|---|-----|
|           |             | Drafft wedi'i chyhoeddi | Ymatebion a Dderbyniwyd | Cyhoeddi drafft terfynol | 1                      | 2 | 3 | OEM |

Nid oes unrhyw adroddiadau wedi'u cwblhau ers yr Adroddiad SICA diwethaf.



## Cynnydd o ran Cynllun Blyneddol 2024/2025

4. Mae ein cynnydd o ran Cynlluniau Blyneddol 2024/25 wedi'u nodi yn Atodiad A.

## Newidiadau i Gynllun Blyneddol 2024/25

5. Mae un newid i'r cynllun cymeradwy wedi'i nodi yn y tabl isod. Mae archwiliad Sianeli Timau Cyswllt cydweithredol wedi cael eu canslo gan bob heddlu.

## Symud ymlaen gyda gweithredu argymhellion blaenoriaeth 1

6. Nid ydym wedi gwneud argymhellion Blaenoriaeth 1 (h.y. materion rheoli sylfaenol y dylid gweithredu arnynt ar unwaith) ers yr adroddiad SICA Blaenorol. Mae'r olrhainwyr argymhellion yn cael eu darparu ar gyfer y Cydbwyllgor.

## Dangosyddion achosion gwraidd

7. Datblygwyd y dangosyddion gwraidd achos (RCI) gan TIAA i roi cyfeiriad treigl strategol ar gyfer asesiad llywodraethu, risg a rheolaeth teithio ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Caiff pob argymhelliad a wneir ei ddadansoddi i sefydlu achos sylfaenol y mater sy'n arwain at yr argymhelliad (RCI). Mae angen ystyried y dadansoddiad dros gyfnod parhaus, yn hytrach nag ar sail unigol bob chwarter. Mae canrannau, yn hytrach na nifer wirioneddol yr adolygiadau/argymhellion a wneir yn caniatáu nodi'r cyfeiriad teithio yn fwy effeithiol. Mae saeth tuag i lawr yn arwydd o leihad cadarnhaol mewn risg mewn perthynas â'r RCI penodol.

DAG – Cyfeiriad Asesiad Teithio

| Dangosyddion Achosion Gwraidd | Chwarter 1<br>(2023/24) | Chwarter 2<br>(2023/24) | Chwarter 3<br>(2023/24) | Chwarter 4<br>(2023/24) | Chwarter 1<br>(2024/25) | Cyfeiriad Teithio yn y<br>Tymor Canolig | Arsylwad Archwiliad   |
|-------------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|---|---|
| Cyfarwyddwyd                  |                         |                         |                         |                         |                         |   |   |
| Fframwaith Llywodraethu       | -                       | -                       | 11% (1)                 | 33% (3)                 | -                       | ↔                                       | Gan nad oes adroddiadau wedi'u cwblhau ni ellid pennu unrhyw ddata cymharol |
| Lliniaru Risg                 | -                       | -                       | -                       | -                       | -                       | ↔                                       | Gan nad oes adroddiadau wedi'u cwblhau ni ellid pennu unrhyw ddata cymharol |
| Cydsyniad Rheolaeth           | 84% (20)                | -                       | 78% (7)                 | 56% (5)                 | -                       | ↔                                       | Gan nad oes adroddiadau wedi'u cwblhau ni ellid pennu unrhyw ddata cymharol |
| Cynllun Cyflawni              |                         |                         |                         |                         |                         |   |   |
| Monitro Cyflawniad            | 4% (1)                  | -                       |                         |                         | -                       | ↔                                       | Gan nad oes adroddiadau wedi'u cwblhau ni ellid pennu unrhyw ddata cymharol |
| Cynaliadwyedd                 | 4% (1)                  | 100% (1)                |                         |                         | -                       | ↔                                       | Gan nad oes adroddiadau wedi'u cwblhau ni ellid pennu unrhyw ddata cymharol |

| Dangosyddion Achosion Gwraidd | Chwarter 1 (2023/24) | Chwarter 2 (2023/24) | Chwarter 3 (2023/24) | Chwarter 4 (2023/24) | Chwarter 1 (2024/25) | Cyfeiriad Teithio yn y Tymor Canolig | Arsylwad Archwiliad   |
|-------------------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|--------------------------------------|---|
| Gwynnwch                      | 8% (2)               | -                    |                      | 11% (1)              | -                    | ↔                                    | Gan nad oes adroddiadau wedi'u cwblhau ni ellid pennu unrhyw ddata cymharol |

### Twyll/Anghysondebau

8. Nid ydym wedi clywed am dwyll neu anghysondebau yn y cyfnod ers i'r adroddiad cryno diwethaf gael ei gyhoeddi.

### Materion Eraill

9. Rydym wedi cyhoeddi nifer o nodiadau briffio a threuliau twyll, a ddangosir yn Atodiad B, ers adroddiad blaenorol SICA.

### Cyfrifoldeb/Ymwrthodiad

10. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi'n unswydd ar gyfer defnydd y rheolwyr ac ni ddylid ei ddyfynnu neu gyfeirio ato yn llawn neu yn rhannol i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol. Nid ydy'r materion a godir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi cael ei baratoi, na'i fwriadu ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Nid ydy TIAA yn derbyn nac rhoi unrhyw ddyletswydd gofal i unrhyw barti eraill a fydd yn derbyn yr adroddiad hwn ac yn benodol yn ymwadu unrhyw gyfrifoldeb am golled, niwed neu wariant o unrhyw natur, sy'n cael ei achosi ar ddibynnu ar ein hadroddiad.

-----

## Progress against Annual Plan 2024-25

| System                                 | Planned Quarter | Current Status                                      | Comments  |
|--|-----------------|---|---|
| <b>Collaborative – Pan Wales</b>       |                 |   |   |
| Sustainability                         | 1               | Planned start date 10 <sup>th</sup> December 2024   | Lead Force – Gwent Police – moved to late Q3 at the request of Dyfed-Powys Police |
| Connect Teams Channels                 | 2               |   | Audit Cancelled by each force   |
| Uniform Stores                         | 2               | Fieldwork completed                                 | Lead Force – Gwent Police   |
| Health and Safety                      | 2               | Fieldwork completed                                 | Lead Force – North Wales Police   |
| Payroll                                | 4               | Planned start date 21 <sup>st</sup> November 2024   | Lead Force – Dyfed-Powys Police   |
| <b>North Wales Only</b>                |                 |   |   |
| Western Area – Command Unit            | 1               | Fieldwork completed                                 |   |
| Business Continuity Planning           | 1               | Draft report issued 3 <sup>rd</sup> September 2024  |   |
| Performance Management                 | 2               | Fieldwork completed                                 |   |
| ICT Infrastructure Review              | 2               | TBC – awaiting vetting outcomes                     |   |
| Commissioners Grants                   | 2               | Draft report issued 4 <sup>th</sup> September 2024  |   |
| Fleet Management – Repairs             | 2               | Suggested start date 17 <sup>th</sup> February 2025 | Moved to Q4 at the request of Management due to new system being implemented      |
| ICT Data Assurance                     | 2               | TBC – awaiting vetting outcomes                     |   |
| Risk Management – Mitigating Controls  | 2               | Planned start date 23 <sup>rd</sup> September 2024  |   |
| Cyber Security                         | 3               | TBC – awaiting vetting outcomes                     |   |
| Capital Programme – Project Management | 3               | Planned start date 30 <sup>th</sup> September 2024  |   |

| System   | Planned Quarter | Current Status                                     | Comments   |
|--|-----------------|--|--|
| HR Absence Management linked to Agility          | 3               | Fieldwork completed                                | Brought forward from Q2 at the request of Management |
| HR Management Strategy                           | 3               | Planned start date 14 <sup>th</sup> October 2024   |  |
| Expenses and Additional Payment                  | 3               | Planned start date 21 <sup>st</sup> October 2024   |  |
| Treasury Management                              | 3               | Planned start date 30 <sup>th</sup> September 2024 |  |
| Creditors  | 3               | Planned start date 4 <sup>th</sup> November 2024   |  |
| Anti-Fraud/Counter Fraud                         | 3               | Planned start date 14 <sup>th</sup> October 2024   |  |
| Pensions   | 3               | Fieldwork commenced                                |  |
| Property Subject to Charge (Evidential Property) | 4               | Planned start date 3 <sup>rd</sup> February 2025   |  |
| Occupational Health Unit                         | 4               | Planned start date 17 <sup>th</sup> December 2024  |  |
| ICT Network Security                             | 4               | TBC – awaiting vetting outcomes                    |  |
| Follow-up (year-end)                             | 4               | Planned start date 12 <sup>th</sup> February 2025  |  |
| Contingency                                      | 1-4             | TBC  |  |
| Liaison with Audit Wales Management              | 1-4             |  |  |
| Annual Planning                                  | 1               | Final Report Issued 9 <sup>th</sup> July 2024      |  |
| Annual Report                                    | 4               |  |  |
| Audit Management                                 | 1-4             |  |  |

**KEY:**

|  |                 |  |                     |  |                     |  |                     |
|--|-----------------|--|---------------------|--|---------------------|--|---------------------|
|  | To be commenced |  | Site work commenced |  | Draft report issued |  | Final report issued |
|--|-----------------|--|---------------------|--|---------------------|--|---------------------|

## Appendix B: Briefings on Developments in Governance, Risk and Control

TIAA produce regular briefing notes to summarise new developments in Governance, Risk, Control, Counter Fraud and Security Management which may have an impact on our clients. These are shared with clients and made available through our Online Client Portal or TIAA website. A summary list of those briefings issued in the last three months which may be of relevance to North Wales Police is given below:

### Summary of recent Client Briefings and Alerts

| Date Issued    | Sector | Briefing Type        | Subject  | Web Link  | TIAA Comments   |
|----------------|--------|----------------------|--|---|---|
| 30 AUGUST 2024 | ALL    | Security Alert       | Social media trolling of NHS staff   | <a href="#">Social media trolling of NHS staff - TIAA</a>   | In an era where online interactions can significantly impact mental health and workplace morale, it is essential to stand up against harassment targeting our dedicated NHS workforce.<br><br>Our alert details a recent incident and what you can do to protect your organisation. |
| 30 AUGUST 2024 | ALL    | Security Alert       | Nitrous Oxide thefts   | <a href="#">Nitrous Oxide thefts - TIAA</a>   | Our Security Management team have issued a new security alert regarding a rise in nitrous oxide thefts. Stay informed and take necessary precautions to protect your assets.  |
| 14 AUGUST 2024 | ALL    | Anti-Crime Alert     | Fake QR Codes in Parking Scam  | <a href="#">Fake QR Codes in Parking Scam - TIAA</a>  | There have been reports of scammers placing fake QR codes on parking ticket machines. These deceptive codes lead unsuspecting victims to malicious websites that mimic sites such as RingGo or PayByPhone. Our alert details how to stay safe from these scams.                     |
| 07 AUGUST 2024 | ALL    | Security Alert       | National Protests  | <a href="#">National Protests - TIAA</a>  | National protests took place across the country, and it is crucial to stay informed and stay safe. Our alert shares important information and tips on how to protect your organisation and staff during these uncertain times.  |
| 02 AUGUST 2024 | ALL    | Client Briefing Note | Global IT Outage highlights need for robust IT Disaster Recovery and Business Continuity | <a href="#">Global IT Outage highlights need for robust IT Disaster Recovery and Business Continuity - TIAA</a> | In light of the recent global IT outage, it has become even more evident how crucial it is for businesses to have robust IT disaster recovery and business continuity plans in place. Our briefing details the importance of being prepared for unexpected IT disruptions.          |

| Date Issued  | Sector | Briefing Type         | Subject  | Web Link  | TIAA Comments   |
|--------------|--------|-----------------------|--|---|---|
| 26 JULY 2024 | ALL    | Data Protection Alert | New Digital Information and Smart Data Bill  | <a href="#">New Digital Information and Smart Data Bill - TIAA</a>  | The UK government is introducing a Digital Information and Smart Data Bill (DISD), distinct from the previous government's failed Data Protection and Digital Information Bill in several ways. Learn more about this new bill and the actions to take to keep your data protected.   |
| 26 JULY 2024 | ALL    | Client Briefing       | The Economic Crime and Corporate Transparency Act 2023   | <a href="#">The Economic Crime and Corporate Transparency Act 2023 - TIAA</a>   | Learn about the Economic Crime and Corporate Transparency Act 2023, aimed at boosting the UK's efforts to combat economic crime and improve corporate transparency. Discover the Act's key points and requirements.   |
| 15 JULY 2024 | ALL    | Client Briefing       | Cyber Security Threats   | <a href="#">Cyber Security Threats - TIAA</a>   | The National Cyber Security Centre (NCSC) has published an alert of a significant risk to IT systems and infrastructure. Attackers are exploiting vulnerable Small Office and Home Office (SoHo) devices at organisations to leverage attacks. Typically, SoHo devices (broadband routers etc) do not feature the advance security protection of enterprise level IT systems, thus making them an easy target.              |
| 25 JUNE 2024 | ALL    | TIAA Article          | As featured in The Saturday Telegraph – Impact of Artificial Intelligence and the future of Internal Audit | <a href="#">As Featured in The Saturday Telegraph - Impact of Artificial Intelligence and the Future of Internal Audit - TIAA</a> | Our fifth article published in the Saturday Telegraph, talks about the impact of artificial intelligence and the future of Internal Audit.  |
| 25 JUNE 2024 | ALL    | Podcast               | Ageing Workforce Podcast   | <a href="#">Ageing Workforce Podcast - TIAA</a>   | People are living longer and working longer. Naturally, that brings its own set of challenges for managers and business owners. In this Podcast, Ruth Wragg-Jones from Fitzgerald HR and David Foley, Advisory Director at TIAA, talk about the complexities of the Ageing workforce, considerations to identify and explore and how to put a plan in place to help ensure your workforce remains effective and successful. |

| Date Issued  | Sector                    | Briefing Type         | Subject   | Web Link   | TIAA Comments  |
|--------------|---------------------------|-----------------------|---|--|--|
| 19 JUNE 2024 | ALL<br>NHS/<br>Healthcare | Anti-Crime Alert      | GP Practices Targeted by CEO Fraud                      | <a href="#">GP Practices targeted by CEO fraud - TIAA</a>                      | Intelligence received indicates that the phishing scam commonly known as CEO fraud has been operating across some GP practices. The fraud is perpetrated through the sending of an email to the Practice purporting to be from one of the practice partners, requesting invoices to be paid. |
| 04 JUNE 2024 | ALL                       | Data Protection Alert | The Data Protection and Digital Information Bill Failed | <a href="#">The Data Protection and Digital Information Bill Failed - TIAA</a> | The Data Protection and Digital Information Bill has failed to complete its legislative passage in the necessary time frame before the General Election. It is understood that late amendments added by the Department of Work and Pensions are what caused the Bill to fail.                |



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

**Cydbwyllgor Archwilio**  
**Dyddiad y Cyfarfod: 25 Medi 2024**  
**SESIWN AGORED**

|   |   |
|---|---|
| <b>Teitl:</b>   | Adroddiad Rheoli Mewnol   |
| <b>Awdur:</b>   | Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau   |
| <b>Diben yr adroddiad:</b>                                  | Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am weithgarwch Rheoli Mewnol o fewn yr Heddlu   |
| <b>Lefel Sicrwydd:</b>                                      | Uchel   |
| <b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b> | <input type="checkbox"/> Penderfyniad<br><input type="checkbox"/> Trafodaeth<br><input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd<br><input type="checkbox"/> Gwybodaeth   |
| <b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>                       | <p>Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymateb rheolwyr i faterion Archwilio Mewnol parhaus, gan ganolbwyntio ar osgoi dyblygu adroddiad SICA'r TIAA lle mae'n bosibl.</p> <p>Bydd y cynllun Archwilio ar gyfer 2024/25 yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad SICA ac felly caiff ei eithrio o'r adroddiad hwn am y rheswm hwnnw.</p> <p>Fodd bynnag, mae HGC yn hapus hefo'r cynnydd o ran y cynllun. Mae'r archwiliadau TGCh yn aros am ddyddiadau, ond mae cynnydd yn cael ei wneud gyda fetio archwilwyr newydd ar gyfer gwydnwch.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol</li><li>• Argymhellion wedi'u cyhoeddi gyda dyddiadau dyledus diwygiedig ar gyfer gweithredu. Dylid nodi bod gan argymhelliad y Ddeddf Diogelu Data 280898 ddyddiad dyledus diwygiedig ers y cyfarfod diwethaf. Bydd y Weithdrefn Rheoli Cofnodion yn cael ei chwblhau unwaith y bydd y Strategaeth Rheoli Data wedi'i chwblhau. Yn dilyn oedi hefo'r contractwr, mae gan argymhelliad Rheoli Ystadau 271957 ddyddiad dyledus diwygiedig hefyd. Mae'r llinell amser hon yn caniatáu adolygu a chyhoeddi.</li><li>• Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid, Rhybuddion Twyll, Erthyglau Twyll a Rhybuddion Diogelwch a roddwyd yn y cyfnod.</li><li>• Ceir diweddariad ar archwiliadau Sicrwydd Cyfyngedig. Mae'n bwysig nodi bod Rheoli Absenoldeb Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch wedi'u harchwilio'n ddiweddar. Mae adroddiadau drafft ar fin digwydd.</li></ul> <p>Rhoddir manylion atodol gan yr Atodiadau i'r adroddiad, os oes angen.</p> <p>Mae archwilio mewnol yn eitem agenda sefydlog a drafodir yng nghyfarfodydd y</p> |





**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

|   |  |
|---|--|
|   | Bwrdd Cyd Lywodraethu bob yn ail fis; Trafodir archwilio mewnol hefyd yn ystod cyfarfodydd misol a gynhelir rhwng y CCA, Pennaeth Cyllid a Swyddog Cyllidebu'r Heddlu. Mae'r FBO yn mynychu cyfarfodydd archwilio mewnol misol Cymru Gyfan lle mae cynnydd ar bob archwiliad yn cael ei fonitro. |
| <b>Argymhellion:</b>                            | Dim  |
| <b>Effaith cofrestr risgiau:</b>                | Mae canfyddiadau rheoli TIAA wedi cael eu hystyried i'w hadlewyrchu ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu.  |
| <b>Goblygiadau sicrwydd:</b>                    | Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol at Weithgarwch Rheoli Mewnol yn rhoi Sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru.  |
| <b>Effaith Cydraddoldeb:</b>                    | Dim  |
| <b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b> | Amherthnasol   |

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

### ADRODDIAD RHEOLI MEWNOL – 25 Medi 2024 ADRODDIAD COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL GOGLEDD CYMRU

#### 1. CYFLWYNIAD


Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymateb rheolwyr i faterion Archwilio Mewnol parhaus, gan ganolbwyntio ar osgoi dyblygu adroddiad SICA'r TIAA lle mae'n bosibl.

Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol
- Argymhellion wedi'u cyhoeddi gyda dyddiadau dyledus diwygiedig ar gyfer gweithredu
- Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid, Rhybuddion Twyll, Erthyglau Twyll a Rhybuddion Diogelwch a roddwyd yn y cyfnod
- Diweddariad ar archwiliadau Sicrwydd Cyfyngedig
- Crynodeb

#### 2. STATWS ARGYMHELLIAD ARCHWILIADAU TIAA

Amlinellir y sefyllfa ar argymhellion Archwilio Mewnol ar 04/09/2024 isod:



Mae symudiad ers cyfarfod diwethaf y CA fel yr isod:

- 2 o argymhellion newydd a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.
- 2 argymhelliad newydd wedi'u gweithredu.
- 10 argymhelliad presennol wedi'u gweithredu.
- 1 argymhelliad presennol – Dim yn briodol bellach
- 7 argymhelliad ar gau gan TIAA.

Manylir crynodeb o 12 argymhelliad sydd wedi'u gweithredu ers cyfarfod mis Gorffennaf isod:

| Nifer Argymhellion |               |  |                     | CYFARFOD CA |
|--------------------|---------------|--|---------------------|-------------|
| Lefel Blaenoriaeth | ID            | Swydd                                  | Statws Argymhelliad | 25/09/2024  |
| <b>2</b>           | <b>269283</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>269284</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>269285</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>269286</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>269290</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>277945</b> | Asedau Sefydlog 23/24 – Asedau TGCh    | Presennol           | 1           |
|                    | <b>277946</b> | Asedau Sefydlog 23/24 – Asedau TGCh    | Presennol           | 1           |
|                    | <b>269291</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>276294</b> | Rhanbarth y Dwyrain 23/24 - Uned Reoli | Presennol           | 1           |
| <b>2 Cyfanswm</b>  |               |  |                     | <b>9</b>    |
| <b>3</b>           | <b>280490</b> | Telemateg 23/24 Cydweithredol          | Newydd              | 1           |
|                    | <b>269292</b> | Rheoli Absenoldeb AD 22/23             | Presennol           | 1           |
|                    | <b>280779</b> | Rheoli Newid TGCh 23/24                | Newydd              | 1           |
| <b>3 Cyfanswm</b>  |               |  |                     | <b>3</b>    |
| <b>Cyfanswm</b>    |               |  |                     | <b>12</b>   |

Mae'r argymhellion a gariwyd ymlaen yn parhau i gael eu monitro a'u dilyn yn rheolaidd.

Bydd y cyfanswm o 23 argymhelliad a weithredwyd ar 04/09/2024 wedi'i amlinellu isod:

| Crynodeb Statws – Gweithredwyd                                   | Categori | Nifer     |
|--|----------|-----------|
| Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus gwreiddiol             | Cat 1    | 9         |
| Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus diwygiedig 1af         | Cat 2    | 1         |
| Gweithredwyd ar neu cyn yr 2il ddyddiad dyledus diwygiedig       | Cat 3    | 2         |
| Gweithredwyd ar neu cyn y 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig        | Cat 4    | 6         |
| Gweithredwyd ar neu cyn y 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig        | Cat 5    | 0         |
| Gweithredwyd ar neu cyn y 5ed dyddiad dyledus diwygiedig         | Cat 6    | 0         |
| Gweithredwyd ar ôl y dyddiad dyledus gwreiddiol a/neu diwygiedig | Cat 7    | 5         |
|  |          | <b>23</b> |

Amlinellir dadansoddiad o'r 14 argymhelliad sy'n weddill ar 04/09/2024 isod:

| Crynodeb Statws – Argymhellion sy'n Weddill                 | Categori | Nifer     |
|---|----------|-----------|
| Nifer yr Argymhellion – dal ar y dyddiad dyledus gwreiddiol | Cat 1    | 2         |
| Nifer yr Argymhellion – dyddiad dyledus diwygiedig 1af      | Cat 2    | 3         |
| Nifer yr Argymhellion – 2il ddyddiad dyledus diwygiedig     | Cat 3    | 3         |
| Nifer yr Argymhellion – 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig     | Cat 4    | 1         |
| Nifer yr Argymhellion – 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig     | Cat 5    | 1         |
| Nifer yr Argymhellion – 5ed dyddiad dyledus diwygiedig      | Cat 6    | 1         |
| Nifer Argymhellion – Hwyr                                   | Cat 7    | 3         |
|   |          | <b>14</b> |

Mae pwyslais ar geisio sicrhau bod y dyddiadau cau cychwynnol a osodwyd yn briodol ac yn realistig (er mwyn sicrhau nad ydy diwygio dyddiadau'n digwydd wrth gwrs) yn aros mewn lle.

Ceir dadansoddiad o'r 14 argymhelliad sy'n weddill a sut maent yn cyfateb i bob archwiliad ar Atodiad 1.

Ceir y sefyllfa ddiweddaraf a diweddariad o ran y 14 argymhelliad sy'n weddill yn Atodiad 2. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Cyfrifol ar gyfer pob cam gweithredu sy'n weddill gyda rolau, yn hytrach nag enwau unigol a gynhwysir yn yr adroddiad.

### 3. ARGYMHELLION WEDI'U CYHOEDDI GYDA DYDDIADAU DYLEDUS DIWYGIEDIG AR GYFER GWEITHREDU

#### Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol o'r Ddeddf Diogelu Data

Mae argymhelliad 280898 wedi'i ddiwygio i 30/09/2024 ar gais y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth.

Y diweddaraaf - Nid ydy'r Weithdrefn Rheoli Cofnodion yn gyflawn eto. Rwyf wedi bod yn ysgrifennu'r Strategaeth Rheoli Data a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Rheoli Data. Ar ôl i mi eu cwblhau gallaf ddiweddarau'r weithdrefn a fydd yn cyd-fynd hefo'r strategaeth.

#### Strategaeth Rheoli Stadau

Mae argymhelliad 271957 wedi'i ddiwygio i 31/10/2024 ar gais y Pennaeth Cyfleusterau a Fflyd.

Y diweddaraaf – Yn dilyn oedi hefo'r contractwr, mae'r dyddiad erbyn hyn wedi'i ddiwygio i 31/10/2024. Mae'r llinell amser hon yn caniatáu adolygu a chyhoeddi.

### 4. YMATEB RHEOLWYR O RAN NODIADAU BRIFFIO CLEIENTIAID, RHYBUDDION TWYLL, ERTHYGLAU TWYLL A RHYBUDDION DIOGELWCH GAN GYNNWYS Y RHAI HYNNY A RODDWDYD YN Y CYFNOD - 2024

Dangosir statws CBNs, Rhybuddion Twyll, Erthyglau Twyll a Rhybuddion Diogelwch isod:

| Math                 | Cyfanswm Nifer a gofnodwyd | Nifer a gofnodwyd yn y cyfnod presennol | Angen Gweithredu | Gweithrediadau Agored |
|----------------------|----------------------------|---|------------------|-----------------------|
| CBNs 2024_2          | 5                          | 3                                       | 0                | 0                     |
| Rhybuddion Twyll     | 0                          | 0                                       | 0                | 0                     |
| Erthyglau Twyll      | 0                          | 0                                       | 0                | 0                     |
| Rhybuddion Diogelwch | 0                          | 0                                       | 0                | 0                     |

Adolygydd a datblygydd Nodiadau Briffio Cleientiaid, Rhybuddion Twyll a Rhybuddion Diogelwch a dderbyniwyd yn y cyfnod gan y tîm rheoli.

Roedd tri CBN ond dim Rhybuddion Twyll, Erthyglau Twyll na rhybuddion diogelwch yn y cyfnod rhwng 05/07/2024 a 04/09/2024.

#### CBNs

- CBN2024\_07i – Bygythiadau Diogelwch Seiber – mae bygythiadau diogelwch seiber yn cael eu monitro drwy'r gofrestr risg – **Wedi cau.**
- CBN\_2024\_07ii – Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 – gweithdrefnau/prosesau cadarn ar waith; ochr yn ochr â gwahanu dyletswyddau h.y., ni all unrhyw unigolyn awdurdodi taliadau boed hynny mewn credydwy, rheolaeth y Trysorlys a/neu gyflogres. Mae'r prosesau hyn yn cael eu harchwilio gan TIAA yn flynyddol – **Wedi cau.**
- CBN\_2024\_08 – Mae toriad TG byd-eang yn tynnu sylw at yr angen am Adferiad Trychineb TG cadarn a Pharhad Busnes - nid oedd HGC wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol mewn unrhyw ffordd gan y toriad TG byd-eang diweddar hwn er bod rhai rhannau o'r seilwaith CGI yn anuniongyrchol, ond lle'r oedd TGCh yn gweithio'n agos hefo CGI er mwyn rheoli unrhyw amhariad a allai fod wedi cael effaith ar HGC. Mae rhwymedigaethau Parhad Busnes wedi'u nodi mewn contractau cyflenwyr hefyd er mwyn sicrhau bod eu gweithrediadau eu hunain yn ddigon cadarn i wrthsefyll senarios o'r fath heb fawr o effaith arnom ni fel eu cwsmer. Mwy o fanylion yn atodiad A – **Wedi cau.**

## 5. DIWEDDARIAD AR ARCHWILIADAU SICRWYDD CYFYNGEDIG

### AD – Rheoli Absenoldeb – Sicrwydd Cyfyngedig

Rheoli Absenoldeb AD 2022/2023 – 9 x argymhelliad pwysig ac 1 x argymhelliad rheolaidd.

Mae 9 argymhelliad wedi'u rhoi ar waith ac ystyriwyd nad oedd 1 argymhelliad bellach yn berthnasol ers cyflwyno'r polisi Rheoli Presenoldeb newydd.

Mae'r holl argymhellion wedi cael eu hadolygu yn ystod yr archwiliad diweddar a gynhaliwyd gan TIAA. Daeth yr archwiliad hwn i ben ar 03/09/2024.

Mae'n annhebygol y bydd yr adroddiad archwilio yn cael ei gwblhau cyn y cyfarfod hwn felly bydd y Swyddog Cyllid a Chyllideb yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar y diwrnod.

### Rheolaeth Iechyd a Diogelwch – Sicrwydd Cyfyngedig

Rheolaeth Iechyd a Diogelwch 2022/2023 – 3 x argymhelliad pwysig

1 x wedi'i weithredu

2 x argymhelliad yn weddill

O ran hyfforddiant HSM i swyddogion a staff gan eu bod yn cael eu dyrchafu i swyddi goruchwylio a darparu hyfforddiant i Oruchwylwyr presennol.

Cytunwyd yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu ar 18/06/2024 y gellid diwygio'r dyddiadau gweithredu ar y ddau argymhelliad neilltuol yn unol ag archwiliad arfaethedig 2024/2025. Mae'r archwiliad hwn yn archwiliad cydweithredol rhwng Heddlu Gogledd Cymru, Dyfed Powys a Gwent.

Mae'r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiad drafft ar fin digwydd.

Mae'n annhebygol y bydd yr adroddiad archwilio yn cael ei gwblhau cyn y cyfarfod hwn felly bydd y Swyddog Cyllid a Chyllideb yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar y diwrnod.

## 6. CRYNODEB

Darperir yr adroddiad hwn i'r Cydbwyllgor Archwilio i roi sicrwydd ynghylch y gweithgarwch rheolaeth fewnol sy'n digwydd yn ystod y cyfnod, gan atodi'r wybodaeth a gadwyd o fewn adroddiad SICA TIAA.

**Appendix 1** - Analysis of the 14 outstanding recommendations and how they tally to each audit.

| No  | ID     | Service        | Job   | Year | Risk Area     | Type     | Recs Monitored Via  | Linked to Risk Register                                     |
|-----|--------|----------------|---|------|---------------|----------|---|---|
| 001 | 249424 |                | REDACTED  |      |               |          |   |   |
| 002 | 249425 |                |   |      |               |          |   |   |
| 003 | 249426 |                |   |      |               |          |   |   |
| 004 | 269698 |                | REDACTED  |      |               |          |   |   |
| 005 | 269701 |                |   |      |               |          |   |   |
| 006 | 271373 | Internal Audit | 22/23 Health and Safety Management                          | 2022 | Directed Risk | Existing | Quarterly Joint Governance Board; Quarterly SLT; Quarterly Health and Safety Board  | -   |
| 007 | 271374 |                |   |      |               |          |   |   |
| 008 | 271957 | Internal Audit | 23/24 Estates Management - Strategy                         | 2023 | Directed Risk | Existing | Quarterly Joint Governance Board; Quarterly Estates & Facilities Board  | 93. Inadequate financial resources to deliver service plans |
| 009 | 272557 | Internal Audit | 22/23 HR – Use of OLEEO - Collaborative                     | 2022 | Directed Risk | Existing | Quarterly Joint Governance Board; All Wales People and Organisational Gold Group; Silver Resourcing Group                                   | -   |
| 010 | 274228 | Internal Audit | 23/24 Procurement   | 2023 | Delivery Risk | Existing | Quarterly Joint Governance Board  | -   |
| 011 | 277947 |                | REDACTED  |      |               |          |   |   |
| 012 | 280148 | Internal Audit | 23/24 Fleet Management - Fuel                               | 2023 | Directed Risk | New      | Quarterly Joint Governance Board; Quarterly Vehicle user group which reports into the quarterly Strategic Finance Resources Board meetings. | -   |
| 013 | 280475 | Internal Audit | 23/24 Collaborations and Partnerships                       | 2023 | Directed Risk | New      | Quarterly Joint Governance Board  | -   |
| 014 | 280898 | Internal Audit | 23/24 Collaborative Assurance Review of Data Protection Act | 2023 | Directed Risk | New      | Quarterly Joint Governance Board  | -   |

**Appendix 2 – Latest Management Response relating to Outstanding Recommendations**

Overview

1.2 Gwahoddir aelodau i awgrymu eitemau i'w cynnwys ar y rhaglen waith a gellir gwneud hyn drwy gysylltu hefo'r Prif Swyddog Cyllid.

1.3 Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad ydy dyddiad cyfarfod wedi'i gadarnhau eto, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

#### **2. ARGYMHELLION**

2.1 Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.

2.2 Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

2.3 Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

### 3. RHAGLEN WAITH

3.1 Gan eithrio eitemau a amserlennwyd sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.

3.2 Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:

| Dyddiad y Cyfarfod                 | Rhaglen Waith 2024/25  | Diben  |
|------------------------------------|--|--|
| Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol) | <ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddariad Busnes yn cynnwys Gwerth am Arian <i>Cais gan y CA</i></li><li>• Diweddariad HMICFRS (wedi'i ymgorffori i'r uchod oni bai ei fod yn sylweddol) <i>swyddogaeth graidd</i></li><li>• Diweddariad Archwilio Mewnol <i>swyddogaeth graidd</i></li><li>• Diweddariad Risgiau <i>swyddogaeth graidd</i></li><li>• Newidiadau sefydliadol <i>swyddogaeth graidd</i></li><li>• Diweddariad Digidol TGCh – Rheoli a NEP <i>swyddogaethau ehangach sesiynau caeedig</i></li><li>• Rhaglen Waith</li><br/><li>• Diweddariad Cynllun Gweithredu'r CA <i>sesiynau caeedig</i></li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cais gan y CA</li><li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li><br/><li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li><li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li><br/><li>• Cais gan yr Heddlu</li><br/><li>• Sicrhau bod yr holl swyddogaethau craidd a gorfodol eraill yn cael eu cynllunio yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl swyddogaethau ehangach ac eitemau eraill a gytunwyd yn cael eu gosod ger bron.</li><br/><li>• Cais gan y CA</li></ul> |

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

| Dyddiad y Cyfarfod | Rhaglen Waith 2024/25  | Diben  |
|--------------------|--|--|
| 31 Hydref 2024     | <ul style="list-style-type: none"><li>• ISA 260 a llofnodi cyfrifon.</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>• Swyddogaeth statudol</li></ul> |





**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

|                  |   |  |
|------------------|---|--|
|                  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Y dyddiad statudol ydy 31 Gorffennaf, ond mae hyn yn cael ei adolygu.</li> </ul>  |
| 28 Tachwedd 2024 | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)</li> <li>• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys</li> <li>• Adroddiad o'r Adran Gyfreithiol (<i>ystyried sut y gall y CA roi sicrwydd</i>)</li> <li>• Diweddariad Gwerth am Arian – yr heddlu</li> <li>• Adroddiad HMICFRS – Adolygiad PEEL (cynnwys defnyddio 101/digidol/999)</li> <li>• Diweddariad ar y rhaglen gyfalaf</li> <li>• Sesiwn friffio: Cydweithredu</li> <li>• Risg 121: Tynnu cylchedau copr BT</li> <li>• Sesiwn friffio: NEP a Rheoli Data</li> <li>• Archwiliad Diwylliannol – canlyniadau a chynllun gweithredu</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd) <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gellir oedi – yn dibynnu ar lofnodi cyfrifon</li> </ul> </li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – mae adrodd yn orfodol)</li> <li>• Cais gan SCHTh/Heddlu</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (ehangach)</li> </ul> |
| Mawrth 2025      | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) – canolbwyntio ar danwario</li> <li>• Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys drafft AGS</li> <li>• Diweddariad Cynaliadwyedd</li> <li>• Archwilio Cymru – cynllun blynyddol</li> <li>• Diweddariad Moeseg</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – gorfodol i'w gymeradwyo erbyn 1 Ebrill 2025)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (ehangach)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> </ul>   |
| Mehefin 2025     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarwyddyd Technegol Cyfrifon</li> <li>• Cyflwyniad i'r cyfrifon</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gysylltiedig hefo'r angen gorfodol i'r CA adolygu'r cyfrifon cyn llofnod gan y CHTh/PG</li> </ul>  |
| Gorffennaf 2025  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• ISA 260 a llofnodi cyfrifon</li> <li>• Datganiad Rheoli'r Heddlu – cyfarwyddyd</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddogaeth statudol Y dyddiad cau ydy 31 Gorffennaf 2025, ond gall fod dyddiadau estynedig yn 2025.</li> <li>• Cylch Gorchwyl (ehangach)</li> </ul>  |



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

|              |   |   |
|--------------|---|---|
|              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol</li> <li>• Datganiad Strategaeth Risg a Pharodrwydd Risg – Adolygiad blynyddol</li> <li>• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys</li> <li>• Adroddiad o'r Adran Gyfreithiol</li> <li>• Archwiliad Diwylliannol – diweddariad ar gynllun gweithredu</li> </ul>        | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylch Gorchwyl (er mwyn sicrhau annibyniaeth ac atebolrwydd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – mae adrodd dros dro yn orfodol)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (ehangach)</li> </ul> |
| Medi 2025    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad llywodraethu</li> <li>• Diweddariad Cynaliadwyedd</li> <li>• Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> </ul>   |
| Rhagfyr 2025 | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)</li> <li>• Diweddariad llywodraethu</li> <li>• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys</li> <li>• Adroddiad o'r Adran Gyfreithiol</li> <li>• Diweddariad Gwerth am Arian - yr heddlu</li> <li>• Adroddiad HMICFRS - Adolygiad PEEL</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – mae adrodd yn orfodol)</li> <li>• Cais gan SCHTh/Heddlu</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> <li>• Cylch Gorchwyl (craidd)</li> </ul>                         |

|                                     |   |
|-------------------------------------|---|
| Eitemau eraill i'w trafod gyda'r CA | <p>Cynllun Gweithredu Gwerthuso CA - Sicrhau fod sesiynau ymroddedig a chaeddig wedi'u trefnu yn ôl yr angen er mwyn symud gweithrediadau cynllun Gwerthusiad y CA yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd gan ystyried darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn benodol.</p> <p>Cyflwyno Rhaglen TG (yn fisol, tu allan i gyfarfodydd)</p> <p>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru</p> <p>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol</p> <p>Cynaliadwyedd a datgarboneiddio</p> |
|-------------------------------------|---|



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

Adolygu/goruchwylio trefniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau a chydweithrediad *swyddogaeth graidd*



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

#### 4. GOBLYGIADAU

|     |                           |   |
|-----|---------------------------|---|
| 4.1 | Cydraddoldeb              | Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio.<br>Mae <a href="#">Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd</a> mewn grym.  |
| 4.2 | Ariannol                  | Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd.  |
| 4.3 | Cyfreithiol               | Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei <a href="#">Cylch Gorchwyl</a> , sydd wedi'i baratoi yn unol â <i>Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and police – 2022 Edition (CIPFA)</i> .<br>Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. |
| 4.4 | Cymuned                   | Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu.  |
| 4.5 | Risg                      | Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.  |
| 4.6 | Cynllun Heddlu a Throsedd | Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol.  |

#### Awdur yr Adroddiad:

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd



**HEDDLU**  
**GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES**  
**POLICE**

# Cydbwyllgor Archwilio 26.09.24


## Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS

# OUR VISION

Making North Wales the **SAFEST** place to live, work and visit in the UK

# Fframwaith Gwerth am Arian HGC – Lle mae Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS yn ffitio mewn?

---



# Proffiliau Gwerth am Arian – Cyflwyniad

---

Canllawiau HMICFRS ar ddefnyddio'r proffiliau:

"Mae'r proffiliau wedi gwneud eu gwaith os ydynt yn galluogi rheolwyr, arolygyddion, comisiynwyr heddlu a throsedd a phartïon eraill sydd â diddordeb nodi ac edrych ar wahaniaethau diddorol yn y data. Byddwch wylidwrs rhag neidio i gasgliad heb ymchwiliad iawn. Er enghraifft, nid ydy costau uchel o anghenraid yn arwydd o werth am arian gwael ac efallai nad y rhataf ydy'r gorau bob amser. Dylech ystyried edrych ar y rhesymau am unrhyw wahaniaethau drwy asesu'r heddlu i gyd, gan ddefnyddio gwybodaeth leol berthnasol. Dylech ystyried lefelau'r gweithlu yng nghyd-destun moderneiddio'r gweithlu, ymdrechion cydweithredu a threfnu gwasanaethau drwy gytundeb allanol"

Honnir y set o ddata diweddaraf ar gael ar **gyllideb 23-24** hefo'r dangosfwrdd diweddaraf sydd ar gael ar:

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/our-work/article/value-for-money-inspections/value-for-money-profiles/value-for-money-dashboards/](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/our-work/article/value-for-money-inspections/value-for-money-profiles/value-for-money-dashboards/)

Mae'r byrddau gwaith yn eithrio swyddogaethau Plismona Cenedlaethol a SCHTh

Mae'r byrddau gwaith yn cael eu hadnewyddu pan mae'r Heddluoedd yn ailgyflwyno eu data (mae'r cyflwyniad hwn ar sail ciplun ar gyfnod mewn amser)

# Proffiliau Gwerth am Arian – Ffactorau i'w Hystyried

---


- Data mynegol sy'n bwrw goleuni ar feysydd sydd werth ymchwiliad pellach (triongli)
- AHEM – Mae proffiliau'n annog cwestiynau yn hytrach na rhoi safbwyntiau
- Opsiwn i gynnwys neu eithrio'r Heddlu Metropolitan o'r proffiliau – Gwyo'r data
- 43 Heddlu wedi'u strwythuro mewn ffyrdd gwahanol – Ymgeision proffiliau i feincnodi
- Ffactorau i'w hystyried:
  - Mae Gwerth am Arian yn fesur o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
    - Economi'n seiliedig ar Gyllideb a Chost 23-24 yn ôl '000 o'r boblogaeth
    - Nid oes unrhyw fesurau Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd yn cynnwys proffiliau presennol. Yn hanesyddol, roeddent yn seiliedig ar Droseddau a Chanlyniadau
  - Allbynnau wedi'u mesur ar gost bob '000 o'r boblogaeth – Dim ystyried perchnogion ail gartrefi/pobl ar eu gwyliau/ymwelwyr dydd gydag offeryn mesur yn cael ei ystyried yn offeryn cymharol di-lol
  - Set data heb ei archwilio hefo problemau ansawdd data wedi'u nodi'n hanesyddol - Set data'n 300,000+
  - Galw vs Sylw
  - Daearyddiaeth, Cefn Gwlad, Maint yr Heddlu ac Economiâu Gwerthiant
  - Effaith allanol a threfniadau cydweithredol ar broffiliau
  - Swyddogaethau Galluogi/Cymorth – Cost am bob FTE yn mesur yn well na chost am bob '000 o'r boblogaeth (mae mwy o swyddogion rheng flaen angen mwy o Stadau, TGCh, Cerbydau, Hyfforddiant ayyb).



# Proffiliau Gwerth am Arian – Cymhariaeth

Mae Proffiliau Gwerth am Arian yn cymharu â:


- Pob Heddlu
- Y grŵp tebycaf sy'n cynnwys yr heddluoedd canlynol:
  - Dyfnaint a Chernyw, Gogledd Swydd Efrog, Norfolk, Suffolk, Swydd Warwick, Gorllewin Mersia a Wiltshire
- Yn hanesyddol, mae'r heddlu wedi cymharu â heddluoedd eraill Cymru a rhai Gogledd Orllewin Lloegr o ystyried ein cysylltiadau gwleidyddol a gweithredol agos
- Mae AHEF wedi ailedrych ar ffigurau'r boblogaeth sy'n ategu'r proffiliau ac wedi symud i fethodoleg CIPFA o (amcangyfrifon canol 2022 ONS) sydd wedi'u mapio i feysydd yr Heddlu. Mae'r newid yn y fethodoleg yn lleihau poblogaeth Gogledd Cymru o 706,308 i 688,201. Mae hyn yn ostyngiad o 2.56% lle mae pob grŵp cymharydd arall ac eithrio Cymru Gyfan wedi gweld cynnydd.



- Risg – Nid ydy'r fformiwla ariannu wedi cael ei hadolygu am gyfnod sylweddol. Mae'r fformiwla bresennol yn seiliedig ar ffigur poblogaeth 2011. Mae'r uchod yn tynnu sylw at y ffaith pan fydd fformiwla yn cael ei hadnewyddu, mae perygl y bydd Heddlu Gogledd Cymru ar ei cholled gan nad ydy ein poblogaeth wedi cynyddu'n gyfrannol cymaint â heddluoedd eraill.







# Ariannu am bob Pen o'r Boblogaeth

## Financing Provision (Funding) per Head of Population



Funding per Head of Population All Force Average MSG Average


# Ariannu am bob Pen o'r Boblogaeth – Grwpiau Cymharydd




# Ariannu am bob Pen o'r Boblogaeth – Ar beth mae'r arian yn cael ei wario?

|                                | Difference in £m  |             |             |             |
|--------------------------------|-------------------|-------------|-------------|-------------|
| Category                       | All Forces        | MSG         | All Wales   | North West  |
| Police Officers                | 14.5              | 24.8        | -4.4        | -1.3        |
| PCSOs                          | 4.1               | 5.0         | -1.2        | 4.3         |
| Police Staff                   | 7.7               | 9.0         | 3.8         | 7.7         |
| <b>Workforce</b>               | <b>26.4</b>       | <b>38.9</b> | <b>-1.8</b> | <b>10.7</b> |
| Non Staff Costs                | 10.3              | 13.3        | 4.0         | 6.8         |
| Earned Income                  | -3.4              | -10.0       | 2.0         | -1.9        |
| <b>Net Revenue Expenditure</b> | <b>33.3</b>       | <b>42.3</b> | <b>4.1</b>  | <b>15.6</b> |
|                                | Difference in FTE |             |             |             |
| Category                       | All Forces        | MSG         | All Wales   | North West  |
| Police Officers                | 288               | 384         | -64         | -86         |
| PCSOs                          | 112               | 136         | -10         | 120         |
| Police Staff                   | 151               | 168         | 37          | 138         |


# Swyddogion Heddlu am bob '000 o'r Boblogaeth



# SCCH am bob '000 o'r Boblogaeth




# Staff Heddlu am bob '000 o'r Boblogaeth



# Dim Staff – Amrywiant £m

## Non Staff - Variance £m



|                 | Other Employee Costs | Premises | Transport | Supplies & Services | Collaboration Payments | Capital Finance |
|-----------------|----------------------|----------|-----------|---------------------|------------------------|-----------------|
| All Force (£m)  | £2.6                 | £2.3     | £0.0      | £3.6                | -£0.8                  | £2.7            |
| MSG (£m)        | £3.6                 | £2.9     | £0.8      | £5.3                | -£1.1                  | £1.7            |
| Wales (£m)      | £1.6                 | £2.3     | £0.0      | £2.4                | -£0.6                  | -£1.7           |
| North West (£m) | £0.9                 | £1.0     | £0.2      | £2.4                | -£0.2                  | £2.5            |

■ All Force (£m) ■ MSG (£m) ■ Wales (£m) ■ North West (£m)



# Ariannu am bob Pen o'r Boblogaeth – Ar ba swyddogaethau mae'r arian yn cael ei wario?

---


Mae'r gwariant yn cael ei broffilio o ran y categorïau canlynol:

- Plismona Lleol – Ymateb, Timau Plismona Cymdogaethau, Cyswllt Cymunedol, CID Lleol/Prosesu Carcharorion
- Ymdrin â'r Cyhoedd – Ystafell Reoli, Desg Flaen
- Cyfiawnder Troseddol – Dalffa, Cyfiawnder Troseddol, PNC, Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Crwneriaid, Eiddo a Atafaelwyd
- Plismona Ffyrdd – Uned Plismona Ffyrdd/Lleihau Anafiadau (Gan Bwyll)
- Cymorth Gweithredol – Heddlu Arfog, Adran Gŵn, Cymorth Awyr, Uned Geffylau, Gorchymyn Cyhoeddus Uwch, Argyfyngau Sifil Wrth Gefn (Cynllunio Gweithredol)
- Cudd-wybodaeth – Dadansoddi a Chasglu Cudd-wybodaeth
- Ymchwiliadau – Ymchwiliad mawr, SOCU, Troseddau Economaidd, Troseddau Seiber
- Gwarchod y Cyhoedd – Holl Warchod y Cyhoedd – Plant ac Oedolion
- Cymorth Ymchwiliol – Mannau a Lleoedd Trosedd, Olion Bysedd, Fforensig Digidol ac ati
- Swyddogaethau Cymorth – Adnoddau Dynol, Cyllid, TGCh, Stadau, Fflyd ac ati
- Cyllid Cyfalaf gan gynnwys Pensiynau a chostau Ymadael

Mae'n bwysig ystyried cyd-destun lleol a gall fod rhywfaint o gydberthynas/perthynas rhwng rhai o'r categorïau.

# Categoriâu Amcan yr Heddlu – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m

POA Categories - Variance £m



|                   | Local Policing | Dealing with the Public | Criminal Justice Arrangements | Road Policing | Operational Support | Intelligence | Investigations | Public Protection | Investigative Support | Support Functions | Central Costs |
|-------------------|----------------|-------------------------|-------------------------------|---------------|---------------------|--------------|----------------|-------------------|-----------------------|-------------------|---------------|
| ■ All Force (£m)  | £16.1          | £1.6                    | £1.6                          | £1.4          | -£0.1               | £1.6         | -£1.9          | -£0.6             | £0.9                  | £10.1             | £3.1          |
| ■ MSG (£m)        | £15.8          | £2.8                    | £1.8                          | £1.5          | -£0.2               | £2.4         | -£0.5          | £3.2              | £1.5                  | £11.5             | £3.5          |
| ■ Wales (£m)      | £7.0           | £1.9                    | -£0.5                         | -£0.8         | -£2.0               | £1.9         | -£3.3          | -£0.5             | -£0.5                 | £2.0              | -£1.3         |
| ■ North West (£m) | £10.9          | -£1.5                   | £0.4                          | £0.4          | -£1.6               | £1.7         | -£3.4          | -£0.6             | £0.0                  | £6.6              | £2.4          |


# Safle Buddsoddi fesul '000 o'r boblogaeth

---

| <b>POA Category</b>           | <b>All Force<br/>(out of 41)</b> | <b>All Force<br/>(Quartile)</b> | <b>MSG (Out of 8)</b> | <b>Wales<br/>(Out of 4)</b> | <b>North West<br/>(Out of 6)</b> |
|-------------------------------|----------------------------------|---------------------------------|-----------------------|-----------------------------|----------------------------------|
| Local Policing                | 2nd                              | Upper                           | 1st                   | 2nd                         | 1st                              |
| Support Functions             | 3rd                              | Upper                           | 1st                   | 2nd                         | 2nd                              |
| Intelligence                  | 6th                              | Upper                           | 1st                   | 1st                         | 1st                              |
| Criminal Justice Arrangements | 6th                              | Upper                           | 1st                   | 3rd                         | 3rd                              |
| Dealing with the Public       | 6th                              | Upper                           | 2nd                   | 1st                         | 2nd                              |
| Road Policing                 | 7th                              | Upper                           | 2nd                   | 3rd                         | 3rd                              |
| Central Costs                 | 8th                              | Upper                           | 1st                   | 3rd                         | 2nd                              |
| Investigative Support         | 9th                              | Upper                           | 1st                   | 4th                         | 3rd                              |
| Public Protection             | 17th                             | Third                           | 1st                   | 3rd                         | 4th                              |
| Operational Support           | 20th                             | Third                           | 4th                   | 4th                         | 4th                              |
| Investigations                | 32nd                             | Bottom                          | 5th                   | 4th                         | 6th                              |


# Plismona Lleol – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m

## Local Policing - Variance £m



|                   | NPT & Response | Specialist Community Liaison | Local Investigation/prisoner processing | Local Command Team and Support Overheads |
|-------------------|----------------|------------------------------|---|--|
| ■ All Force (£m)  | £12.0          | £2.6                         | £1.2                                    | £0.2                                     |
| ■ MSG (£m)        | £14.7          | £1.9                         | -£1.1                                   | £0.2                                     |
| ■ Wales (£m)      | £8.7           | £0.1                         | -£1.4                                   | -£0.4                                    |
| ■ North West (£m) | £5.2           | £3.6                         | £1.7                                    | £0.4                                     |

# Ymdrin â'r cyhoedd – Cost fesul '000 o'r boblogaeth Amrywiant £m




# Trefniadau Cyfiawnder Troseddol – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m

**Criminal Justice Arrangements - Variance £m**



# Plismona Ffyrdd – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m


Road Policing - Variance £m



|                   | Traffic Units | Vehicle Recovery | Casualty Reduction Partnership | Road Policing Command Team and Support Overheads |
|-------------------|---------------|------------------|--------------------------------|--|
| ■ All Force (£m)  | £1.0          | £0.1             | £0.3                           | -£0.1  |
| ■ MSG (£m)        | £1.1          | £0.0             | £0.6                           | -£0.1  |
| ■ Wales (£m)      | -£0.7         | £0.0             | £0.1                           | -£0.2  |
| ■ North West (£m) | £0.0          | £0.2             | £0.3                           | -£0.1  |

# Cymorth Gweithredol – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m

Operational Support - Variance £m




|                   | Operational Support Command Team and Support Overheads | Air Operations | Mounted Police | Specialist Terrain | Dogs Section | Advanced Public Order | Airports & Ports Policing Unit | Firearms Unit | Civil Contingencies |
|-------------------|--|----------------|----------------|--------------------|--------------|-----------------------|--------------------------------|---------------|---------------------|
| ■ All Force (£m)  | -£0.2  | £0.3           | -£0.1          | £0.0               | £0.1         | -£0.8                 | £0.0                           | £0.4          | £0.2                |
| ■ MSG (£m)        | £0.0   | £0.3           | £0.0           | £0.0               | £0.0         | -£0.4                 | £0.0                           | -£0.2         | £0.1                |
| ■ Wales (£m)      | £0.1   | £0.0           | -£0.1          | -£0.1              | -£0.3        | -£1.1                 | £0.0                           | -£0.3         | -£0.1               |
| ■ North West (£m) | £0.0   | £0.3           | -£0.4          | £0.0               | £0.1         | -£1.6                 | £0.0                           | £0.1          | -£0.1               |



# Cudd-wybodaeth – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m


**Intelligence - Variance £m**



|                 | Intelligence Command Team and Support Overheads | Intelligence Analysis / Threat Assessments | Intelligence Gathering |
|-----------------|---|--|------------------------|
| All Force (£m)  | -£0.2   | £0.9                                       | £0.9                   |
| MSG (£m)        | -£0.2   | £1.6                                       | £0.9                   |
| Wales (£m)      | £0.0  | -£0.1                                      | £2.0                   |
| North West (£m) | £0.0  | £1.2                                       | £0.4                   |


# Ymchwiliadau – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m

## Investigations - Variance £m




|                   | Investigations Command Team and Support Overheads | Major Investigations Unit | Economic Crime (including Regional Asset Recovery Team) | Specialist Investigation Units | Serious & Organised Crime Unit | Cyber Crime |
|-------------------|---|---------------------------|---|--------------------------------|--------------------------------|-------------|
| ■ All Force (£m)  | -£0.3   | -£0.7                     | £0.3  | -£0.1                          | -£0.8                          | -£0.3       |
| ■ MSG (£m)        | -£0.2   | -£0.3                     | £0.4  | -£0.2                          | £0.0                           | -£0.3       |
| ■ Wales (£m)      | -£1.3   | -£0.5                     | £0.0  | -£0.3                          | -£0.9                          | -£0.3       |
| ■ North West (£m) | -£0.3   | -£1.4                     | £0.4  | £0.0                           | -£2.0                          | -£0.1       |

# Gwarchod y Cyhoedd – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m



# Cymorth Ymchwiliol – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m


**Investigative Support - Variance £m**



|                 | Scenes of Crime Officers | External Forensic Costs | Fingerprint / Internal Forensic Costs | Digital Forencis | Other Forensic Services | Investigative Support Command Team and Support Overheads |
|-----------------|--------------------------|-------------------------|---------------------------------------|------------------|-------------------------|--|
| All Force (£m)  | £0.2                     | £0.0                    | £0.1                                  | £0.5             | -£0.4                   | £0.5   |
| MSG (£m)        | £0.4                     | £0.0                    | £0.3                                  | £1.0             | -£0.7                   | £0.6   |
| Wales (£m)      | £0.1                     | £0.0                    | -£0.3                                 | -£0.2            | -£0.4                   | £0.3   |
| North West (£m) | £0.2                     | -£0.2                   | £0.0                                  | £0.4             | -£0.9                   | £0.5   |


# Swyddogaethau Cymorth – Cost fesul '000 o'r boblogaeth – Amrywiant £m

Support Functions - Variance £m




|                   | Human Resources | Finance | Fleet Services | Estates / Central Building Costs | Information Communication Technology | Professional Standards | Performance Review / Corporate Development | Training | Admin Support | Other |
|-------------------|-----------------|---------|----------------|----------------------------------|--------------------------------------|------------------------|--|----------|---------------|-------|
| ■ All Force (£m)  | £0.5            | £0.1    | £1.0           | £3.1                             | £4.0                                 | £0.0                   | £0.9                                       | -£0.1    | £0.4          | £0.2  |
| ■ MSG (£m)        | £0.7            | £0.1    | £1.0           | £3.1                             | £4.7                                 | £0.6                   | £0.8                                       | £0.0     | £0.6          | -£0.1 |
| ■ Wales (£m)      | £0.3            | -£0.1   | £0.5           | £2.4                             | £1.3                                 | -£0.5                  | -£0.5                                      | -£1.0    | £0.4          | -£0.9 |
| ■ North West (£m) | £0.5            | £0.0    | £0.4           | £0.6                             | £4.0                                 | -£0.1                  | £1.1                                       | £0.2     | -£0.1         | £0.0  |

# Swyddogaethau Cymorth – Cost sy'n cyfateb i lawn amser




# Swyddogaethau Cymorth – Cost sy'n cyfateb i lawn amser – Amrywiant £m

Support Functions - Variance £m Cost per FTE



# Costau Canolog – Cost fesul '000 o'r boblogaeth Amrywiant £m






# Casgliad

---

- Data mynegol sy'n bwrw goleuni ar feysydd sydd werth ymchwiliad pellach hefo'r proffiliau'n annog cwestiynau yn hytrach na rhoi safbwyntiau
- Mae'r proffiliau'n fan dechrau yn hytrach na man darfod
- Ategu set data arall (Triongli)
- Gall y set data gynorthwyo cyflawni gwerth am arian a sicrhau y gwarir arian mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol
- Mae gan yr Heddlu adnoddau da o'i gymharu â grwpiau ar sail Cost yn ôl '000 o'r boblogaeth
  - Mwy o swyddogion, SCCH a staff
  - Lefel uwch o fuddsoddi wrth alluogi swyddogaethau fel TGCh, Fflyd, Stadau a Datblygiad Corfforaethol
- Mae angen datblygu'r mesuriadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sy'n cyd-fynd hefo'r buddsoddiad
- Gall y proffiliau ynghyd â datblygu mesurau priodol eu defnyddio er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n cyflawni gwerth am arian. Mae arian i'w wario'n economaidd, effeithlon ac effeithiol





**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

### Cydbwyllgor Archwilio

**Dyddiad y Cyfarfod: 25 Medi 2024**

|  |   |
|--|---|
| <b>Teitl:</b>  | Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus – Diweddariad Caffael Medi 2024  |
| <b>Awdur:</b>  | Tricia Strong, Pennaeth Caffael   |
| <b>Diben yr adroddiad:</b>   | Darparu'r Cydbwyllgor Archwilio gyda throsolwg byr o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno a pharodwydd yr Heddlu ynglŷn â nhw.  |
| <b>Lefel Sicrwydd:</b>   |   |
| <b>Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ddarparu i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b> | <input type="checkbox"/> Penderfyniad<br><input type="checkbox"/> Trafodaeth<br><input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd<br><input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth  |
| <b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>  | <p>'Roedd y Ddeddf Caffael 2023 newydd i fod i ddod i rym ar 28 Hydref 2024. Ynghyd â hwn, daw nifer o newidiadau sydd angen eu mabwysiadu gan sefydliadau y sector cyhoeddus.</p> <p>Mae'r heddlu wedi bod yn paratoi ar gyfer y newid hwn, ond ychydig cyn cyhoeddi'r adroddiad, 'roedd cyhoeddiad ar 12 Medi 2024, sydd wedi peri oedi i'w weithrediad tan 24 Chwefror 2025.</p> <p>Mae'r oedi, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ar gyfer caniatáu amser ar gyfer creu'r Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol, gan sicrhau bod strategaeth gaffael gyhoeddus y Llywodraeth yn gydnaws â chyflawniad eu cenadaethau.</p> <p>Mae hyn yn rhoi 4 mis ychwanegol i'r Heddlu baratoi ar gyfer gweithrediad y Ddeddf.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, rhai materion i'w hystyried a'r camau nesaf i'w cymryd.</p> <p>Nid oes angen penderfyniadau nag ymatebion oddi wrth y pwyllgor ynglŷn â'r cynnwys.</p> |
| <b>Argymhellion:</b>   | Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Pennaeth Caffael.  |
| <b>Effaith cofrestr risgiau:</b>   | Dim.  |
| <b>Goblygiadau sicrwydd:</b>   | Dim.  |
| <b>Effaith cydraddoldeb:</b>   | Dim.  |



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

Gwybodaeth wedi'i heithrio o  
ddadleniad:

Dim - Yr holl gynnwys yn y Sesiwn **Agored**

# CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

25 Medi 2024

## Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus – Diweddariad Caffael Medi 2024

### Adroddiad gan y Pennaeth Caffael, Heddlu Gogledd Cymru

#### 1. Trosolwg

- 1.1 'Roedd y ddeddfwriaeth newydd fod i ddod i rym ar 28 Hydref 2024, ond yn dilyn cyhoeddiad ar 12 Medi 2024, mae hyn wedi ei ohirio tan 24 Chwefror 2025, sy'n rhoi rhagor o amser ar gyfer creu'r Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol newydd.
- 1.2 Mae'r oedi o 4 mis yn rhoi rhagor o amser i Heddluoedd baratoi.
- 1.3 'Roedd nod y newidiadau yn seiliedig ar 5 amcan :
- Cyflawni gwerth am arian.
  - Sicrhau'r budd cyhoeddus gorau.
  - Rhannu gwybodaeth er mwyn i gyflenwyr ddeall polisïau a phenderfyniadau'r awdurdod.
  - Gweithredu, ac yn ymddangos yn gweithredu, gydag uniondeb a thryloywder.
  - Rhoi mwy o sylw i fentrau bach a chanolig (SMEs).
- 1.4 Mae wedi ei ddisgrifio fel "yr ysgytiad mwyaf sylweddol i gyfraith caffael am genhedlaeth".

#### 2. Yr hyn sydd wedi'i wneud

- 2.1 Mae'r sylw cychwynnol wedi bod ar sicrhau bod yr arbenigwyr Caffael o fewn yr heddlu wedi eu hyfforddi yn briodol, ac yn gyfarwydd efo goblygiadau'r newidiadau.
- 2.2 Felly, mae holl staff Caffael HGC wedi cwblhau Trosolwg Gwybodaeth Trawsnewid Caffael Cyhoeddus Swyddogol a'r 10 modiwl gan [Goleg Masnachol y Llywodraeth](#).
- 2.3 Mae'r Pennaeth Caffael hefyd wedi cwblhau hyfforddiant at wraidd y mater Coleg Masnachol y Llywodraeth.
- 2.4 Mae dau Swyddog Caffael wedi archebu llefydd ar hyfforddiant at wraidd y mater Coleg Masnachol y Llywodraeth. Mae'r hyfforddiant yn cymryd cryn dipyn o amser i'w gwblhau ac mae'n gymhleth, felly mae bod yn gyfarwydd â'r cynnwys angen ei bwysu a mesur o ran anghenion arferol y busnes.
- 2.5 Mae'r Polisi Caffael wedi ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau perthnasol, ac wedi'i gymeradwyo, ac fe aiff yn fyw ar 1 Hydref 2024.
- 2.6.1 Mae'r Dogfennau Tendr a thempledi perthnasol hefyd wedi'u diweddarau.
- 2.7 Mae gwaith ar y gweill ar siartiau llif er mwyn amlinellu sut mae'r prosesau caffael yn mynd i weithio. Mae'r rhain i'w cwblhau.

- 2.8 Mae cyflwyniadau wedi eu cyflawni i'r rhai caiff eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau – y rhai efo cyllidebau gwariant allanol sylweddol, megis Technoleg, Ystadau a'r Fflyd – drwy gyfrwng cyflwyniadau PowerPoint i'r Uwch Dîm Rheoli Cyllid ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2024.

### **3. Y prif faterion i'w hystyried**

- 3.1 Mae'r newidiadau yn cyflwyno llawer o Hysbysiadau newydd, ond nid ydy'r tîm Caffael wedi gweld y cynnwys manwl o'r rhain.
- 3.2 Byddent hefyd yn cyflwyno newidiadau i nifer o brosesau, a bydd yn cymryd cryn dipyn o amser i weithio drwy'r rhain, ynghyd ag adlewyrchu hyn yn y siartiau llif prosesau caffael.
- 3.3 Nid ydy mynediad i'r system cyhoeddi hysbysiad newydd wedi ei rannu hyd yn hyn.

### **4. Crynodeb**

- 4.1 Mae'r tîm Caffael yn ymwybodol o'r newidiadau a'r amserlen.
- 4.2 Maen nhw wedi bod yn gweithio drwy'r hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod wedi cael golwg o'r goblygiadau ac yn medru sicrhau bod eraill yn cael golwg fel yn briodol.
- 4.3 Mae llawer o ansicrwydd a meysydd i weithio drwyddynt, ond mae'r cyhoeddiad diweddar ynglŷn ag oedi i'r amserlen gweithredu yn rhoi ychwaneg o gyfle i weithio drwy'r agweddau hynny.

### **5. Argymhellion**

- 5.1 Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Pennaeth Caffael.



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

### Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 25 Medi 2024

|   |   |
|---|---|
| <b>Teitl:</b>   | Bwrdd Cyd Lywodraethu   |
| <b>Awdur:</b>   | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid, SCHTh  |
| <b>Diben yr adroddiad:</b>                                  | Diweddariad   |
| <b>Lefel Sicrwydd</b>                                       | Amherthnasol<br>Diben y Bwrdd Llywodraethu ar y Cyd ydy casglu gwybodaeth am y trefniadau sicrwydd ar draws y ddau sefydliad, yn hytrach na rhoi sicrwydd.  |
| <b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b> | <input type="checkbox"/> Penderfyniad<br><input type="checkbox"/> Trafodaeth<br><input type="checkbox"/> Sicrwydd<br><input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth   |
| <b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>                       | <ul style="list-style-type: none"><li>Ar 4 Medi 2024, gwnaeth y Bwrdd:<ul style="list-style-type: none"><li>Derbyn diweddariad cynnydd ar archwiliad Datganiadau Cyfrifon statudol 2023/24, a diweddariadau i'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol</li><li>Derbyn sesiwn friffio ar y dull o ymdrin â'r datganiadau cyfrifon ar gyfer 2024/25</li><li>Derbyn diweddariad ar Ddeddf Caffael Cyhoeddus 2023</li></ul></li></ul> |
| <b>Argymhellion:</b>  | <ul style="list-style-type: none"><li>Nodi'r adroddiad</li><li>Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio fod yn ymwybodol y gallent fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu</li></ul>   |
| <b>Effaith cofrestr risgiau:</b>                            | Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.   |
| <b>Goblygiadau sicrwydd:</b>                                | Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2023/24. Bydd y trefniadau hyn yn newid oherwydd yr adolygiad i ddod.<br><br>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.   |
| <b>Effaith Cydraddoldeb:</b>                                | Dim   |
| <b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>             | Dim   |



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**25 Medi 2024**

**Bwrdd Cyd Lywodraethu**

**Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid**



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**

### 1. Cefndir

1.1. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae rhaglen waith wedi'i pharatoi er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni ei hamcanion i gofnodi trefniadau llywodraethu, a goruchwyllo a chynghori ar newidiadau i'r trefniadau hynny.

1.2. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod.

### 2. Argymhellion

2.1. Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein drwy Microsoft Team a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol ydy:

- Dydd Mawrth 29 Hydref 2024
- Dydd Iau 13 Chwefror 2025
- Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025
- Dydd Mawrth 16 Medi 2025
- Dydd Mercher 5 Tachwedd 2025

### 3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi 2024, trafodwyd y canlynol:



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

### 3.2. Datganiad Cyfrifon 2023/24:

- Mae'r archwiliad ar fin cael ei gwblhau
- Ni nodwyd unrhyw gamgymeriadau mawr
- Dim newidiadau i'r prif ddatganiadau
- Dim newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio
- Mae'r Adroddiadau Naratif i'w diweddarau, er mwyn ystyried adborth o'r sesiwn briffio cyfrifon
- Bydd y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn parhau cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol pan fydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu lofnodi (wedi'u trefnu ar gyfer 31 Hydref 2024).

### 3.3. Datganiad Cyfrifon 2024/25

- Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau wybodaeth am y dull o ymdrin â'r datganiadau statudol ar gyfer 2024/25
- Gwnaed sawl awgrym er mwyn wella'r datganiadau, ynghylch yr Adroddiad Naratif, gan gynnwys rhoi rhywfaint o wybodaeth mewn atodiadau. Bydd y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn adolygu'r rhain, hefo'r bwriad o wella sut mae'r datganiadau'n darllen, wrth gynnal tryloywder cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

### 3.4. Adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

- Nodwyd bod yn rhaid i'r Datganiad fod yn gyfredol ar adeg ei lofnodi ac felly mae'n destun diweddariad pellach cyn 31 Hydref 2024.

### 3.5. Cyflwynwyd diweddariadau cynnydd i'r Bwrdd ar argymhellion archwilio mewnol ac argymhellion gan y Cydbwyllgor Archwilio.

### 3.6. Cymerwyd fod pawb wedi darllen yr adroddiad Diweddariad Sicrwydd. Bydd cyflwyniad yn cael ei dderbyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio meddalwedd Office 365 er mwyn rheoli'r gofrestr risg
- Bwriedir i'r strwythur llywodraethu aros yr un fath â rŵan, hefo rhai mân welliannau er mwyn atgyfnerthu prosesau a weithredwyd fel rhan o adolygiad y llynedd
- Trafodwyd trothwy'r polisi
- Hysbysodd aelod o'r Cydbwyllgor am bwysigrwydd cael terfynau amser gwaith er mwyn cynnal momentwm.





**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

- 3.7.** Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad ar werthusiad blynyddol y CA, gan dynnu sylw at feysydd sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n peri problem i'r Cydbwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys fformat a chynnwys y papurau a gyflwynwyd iddynt.
- 3.8.** Darparwyd papurau ar Ddeddf Caffael Cyhoeddus 2023 a'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol.
- 4.** Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu cael mynediad at bapurau, gan gynnwys cofnodion a gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r gyriant G. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dydd Mawrth 29 Hydref 2024.

## 5. GOBLYGIADAU

|     |                                 |  |
|-----|---------------------------------|--|
| 5.1 | Cydraddoldeb                    | Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.  |
| 5.2 | Ariannol                        | Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisïau ariannol a monitro systemau ariannol a chyflawniad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.  |
| 5.3 | Cyfreithiol                     | Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol. |
| 5.4 | Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol | Caiff polisïau amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.   |
| 5.5 | Risg                            | Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a   |



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

|     |                           |   |
|-----|---------------------------|---|
|     |                           | chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.  |
| 5.6 | Cynllun Heddlu a Throsedd | Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu. |

**Awdur yr Adroddiad**

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd